

Cymrodoriaethau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

*Adnabod Rhagoriaeth
mewn Addysgu...*



Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno canlyniadau blwyddyn gynhyrchiol arall o'r bartneriaeth rhwng Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd a'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu.

Dyma'r pedwerydd llyfryn blynyddol sy'n dathlu cyflawniadau pob un o Gymrodorion Addysgu Prifysgol Metropolitan Caerdydd sydd wedi'u cydnabod gan eu myfyrwyr am ansawdd eu haddysgu a'u hymrwymiad i brofiad y myfyriwr. Mae'r llyfryn, unwaith eto, yn cydnabod yr amrywiaeth eang o arferion ardderchog a nodwyd gan fyfyrwyr ac, eleni, achubwyd ar y cyfle i dynnu sylw at y modd y mae staff Met Caerdydd yn helpu i ddatblygu Priodoleddau Graddedigion. Mae sylwadau'r myfyrwyr, nid yn unig yn dangos y safonau addysgu uchel, ond hefyd yr amrywiol ffyrdd y mae staff yn helpu i baratoi myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol.

Mae'r bartneriaeth a ffurfiwyd gennym rhwng datblygwyr dysgu ac Undeb y Myfyrwyr yn galluogi myfyrwyr i roi gwybodaeth i ni er mwyn llywio ein gwelliant parhaus drwy ddarparu enghreifftiau o'r arferion hynny sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'r wybodaeth a roddir hefyd yn nodi'r arferion addysgu arloesol a chreadigol sydd ar waith ym Met Caerdydd a gwerthfawrogiad y myfyrwyr o'u profiad yma.

Hoffem ddiolch i'r holl staff a myfyrwyr a gyfrannodd at y Cymrodoriaethau Addysgu Dan Arweiniad Myfyrwyr ar gyfer 2015 a gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen sylwadau ein myfyrwyr a'n Cymrodorion gymaint ag y gwnaethom ni.

Dr Colleen Connor,
Deon Dysgu ac Addysgu

Mike Davies,
Prif Weithredwr,
Met Caerdydd

Cyflwyniad

Bydd y cyhoeddiad eleni, sy'n deillio o'r Cymrodoriaethau addysgu dan arweiniad myfyrwyr, yn defnyddio enwebiadau'r myfyrwyr i dynnu sylw at y modd y mae'r enillwyr yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu harferion dysgu a hefyd y modd y mae staff Met Caerdydd yn helpu i ddatblygu Priodweddau Graddedigion.

Eleni, derbyniwyd dros 650 o enwebiadau gan fyfyrwyr sy'n nodi arferion rhagorol ac ethos sy'n canolbwyntio ar y myfyrwr ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Unwaith eto, rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r aelodau hynny o staff a oedd yn dangos parch tuag at fyfyrwyr, yn gwerthfawrogi eu cyfranogiad ac yn cydnabod eu cymeriad unigryw. Cafodd natur gymhleth bywydau myfyrwyr, sy'n arwain at frwydrau academiaidd, cymdeithasol neu seicolegol, ei nodi'n aml, a chydabuwyd gwerthfawrogiad o barodrwydd staff i fynd gam ymhellach er mwyn galluogi'r myfyrwyr hyn i gyflawni'n academiaidd yn glir, fel y nodir isod.

“Eleni, rwyf wedi wynebu sawl rhwystr ond diolch i'w gwaith tîm arbennig (tîm academiaidd) rwyf wedi goresgyn bob rhwystr yn hawdd. Roedd gennyf diwtoriaid a oedd yn credu ynof, yn credu y gallwn i gyflawni. Maent wedi fy annog i anelu am yr hyn rwyf ei eisiau ac, am fy mod i nawr yn credu fy mod yn gallu gwneud hynny, rwy'n gwneud cais am radd Meistr.”

“Gallwch ddweud bod (Enw) yn awyddus i chi wneud yn dda, nid yn unig yn y brifysgol ond ar ôl i chi ennill eich gradd, drwy ei brwdfrydedd a'i pharodrwydd i sicrhau eich bod yn gwybod sut i wella eich hun er mwyn addasu i'r byd gwaith.”

Mae agosatrwydd staff yn allweddol i fyfyrwyr sy'n ceisio cyngor, ac mae cysylltiad clir rhwng eu parodrwydd i ofyn cwestiynau ac amgylchedd diogel a greir yn yr ystafell ddosbarth.

“Mae (Enw) yn ein hannog i gymryd rhan yn y dosbarth ac nid yw byth yn diraddio unrhyw un pan fyddant yn rhoi ateb anghywir neu os nad ydynt yn deall y pwnc.”

Unwaith eto, mae'r pwysigrwydd a'r gwerth a osodir ar gymorth academiaidd yn ganolog i enwebiadau'r myfyrwyr, a chânt eu trafod o dan y thema 'Hyblygrwydd ac addasrwydd', gan mai meistrolaeth o'r sgiliau hyn a'r hyder a ennir yn sgil hynny sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes yn ôl pob golwg. At ddiben y cyhoeddiad hwn, caiff yr enwebiadau eu dadansoddi yn ôl y chwe phriodoledd a bennir ar gyfer graddedigion Prifysgol Metropolitan Caerdydd. -

- Datrys problemau a'r gallu i ddadansoddi
- Sgiliau rhyngbersonol a rhwydweithio
- Dinasyddiaeth fyd-eang (amrywiaeth a chynaliadwyedd)
- Hyblygrwydd ac addasrwydd (dysgu gydol oes)
- Cyfathrebu effeithiol
- Creadigrwydd ac arloesedd

Datrys Problemau a'r Gallu i Ddadansoddi

Themâu sy'n deillio o'r enwebiadau:

Yr hyn yr oedd gan y myfyrwyr i'w ddweud...

- Defnyddio gwybodaeth mewn amrywiaeth o gyfryngau a chymhwyso meddwl rhesymegol a beirniadol at bob math o broblemau.
- Defnyddio dulliau casglu tystiolaeth, rhifedd, dadansoddi a synthesis yn briodol i ymchwilio i broblemau a dod o hyd i atebion effeithiol.
- Ystyried safbwyntiau lluosog fel y maent yn berthnasol i heriau ymarferol a damcaniaethol.

▣▣ Drwy drafodaeth, mae'n eich cymell i feddwl yn feirniadol am eich gwaith heb farnu na mynegi barn bersonol. Os ydych yn talu sylw i'r hyn y mae'n ei ddweud, rydych yn sylweddoli'n syth ei fod yn defnyddio cwestiynau i wneud i chi feddwl am eich gwaith ac ateb. Drwy wneud hynny, rydych yn dod yn fwy ymwybodol o'ch cyd-destun, cysyniadau a syniadau ac yn eu deall yn well. Mae'n defnyddio pob math o ffyrdd i gyfleu gwybodaeth i chi, nail ai drwy drafodaeth, cwestiynau neu hyd yn oed ddarluniau. Os na fyddwch yn deall rhywbeth yn ystod y drafodaeth gyntaf, yna mi fyddwch, yn sicr, drwy'r dulliau amrywiol y mae'n eu defnyddio i drafod pwnc gyda chi fel eich bod yn ei ddeall. 🗨️

▣▣ Mae'n fy herio i feddwl yn feirniadol a datblygu fy sgiliau gwneud penderfyniadau clinigol, ac mae'n fy annog i achub ar bob cyfle sydd ar gael i mi yn ystod ymarfer academaidd ac wrth baratoi ar gyfer lleoliadau. Mae hon yn dasg anodd a gall cymhelliant bylu ar y cam mwy ansicr hwn o'n proses ddysgu. Mae ei brwdfrydedd a'i dynamiaeth yn ysbrydoledig, ac mae ei chyflwyniad hyderus a'i sgiliau arwain yn rhoi esiampl i'w dilyn mewn ymarfer yn y dyfodol. 🗨️

▣▣ Mae (Enw) wedi bod yn elfen gyson yn y byd ymchwil newidiol ar lefel PhD. Cyn dechrau, roedd hi'n frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn fy syniadau, ac aeth ati i'm helpu i droi'r rhain yn feysydd pendant ar gyfer fy ngwaith ymchwil. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ei gwybodaeth a'i phrofiad wedi sicrhau fy mod yn aros ar y trywydd iawn ac wedi fy ngalluogi i gydnabod yr hyn sy'n bwysig a chanolbwyntio arno (yn hytrach na chrwydro oddi wrtho). Dwi'n teimlo bod hyn wedi bod yn amhrisiadwy a'i fod, ochr yn ochr â'r sgil sydd ganddi o roi ymreolaeth ac arweiniad cytbwys, yn mynnu ein bod yn dangos yr un parch tuag ati ag y mae hi'n ei roi i fyfyrwyr. 🗨️

▣▣ Mae (Enw) yn ein hannog i drafod ac, yn enwedig, i feddwl yn feirniadol, ac mae'n sicr yn ein hysbrydoli i feithrin ein gwybodaeth y tu allan i'r dosbarth...yn aml, mae'n anfon negeseuon e-bost atom sy'n nodi dolenni gwe i bynciau diddorol/defnyddiol sy'n ymwneud â'n maes pwnc. 🗨️

▣▣ Mae (Enw) yn defnyddio llawer o'i brofiad rheng flaen yn y pynciau i sicrhau eu bod yn dod yn fyw. Mae hefyd yn annog pobl i fyfyrio ar eu sefyllfaoedd eu hunain yn ystod trafodaethau grŵp er mwyn sicrhau bod pobl yn deall ac y gallant roi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith. 🗨️



Dyfarnwyd yr Ysgoloriaeth Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr am **Ragoriaeth Addysgu yn Ysgol Chwaraeon Caerdydd** i...

Drwy gydol y flwyddyn, mae Mikel wedi rhoi darlithoedd gwych sy'n pricio'r meddwl ac sy'n ennyn diddordeb pob myfyriwr. Mae'n frwdfrydig ac yn egnïol, ac mae hynny'n creu amgylchedd dysgu sy'n ennyn y gorau o'i fyfyrwyr.

■ ■ Mae Mikel yn ein hannog i feddwl drosom ni ein hunain. Mae'n ein hannog i rannu syniadau ond gyda disgwiliad bod angen i'r syniadau hyn gael eu herio ac nad yw'n ddigon da i labelu pawb yr un fath. Mae ei barodrwydd i rannu ei brofiadau ei hun yn ein hannog i rannu ein profiadau ni a dysgu oddi wrth ein gilydd. ■ ■

■ ■ Mae Mikel yn rhoi gwedd newydd ar Seicoleg Chwaraeon, gan fynd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei ddisgwyl o ran y cymorth y mae'n ei roi i fyfyrwyr gradd meistr. Mae ei ddarlithoedd yn fwy na sleidiau y mae'n darllen ohonynt, maent yn rhyngweithiol ac yn llawn hwyl, sy'n golygu bod y broses ddysgu yn llawer haws. Drwy fod yn agored ac yn onest amdano'i hun fel unigolyn, mae'r myfyrwyr yn ymgysylltu'n fwy â'i ddarlithoedd! Boi ffein iawn y mae pawb yn hoff ohono! ■ ■

■ ■ Mae ei diwtorialau yn gwneud i chi ystyried y cysylltiad rhwng damcaniaeth ac ymarfer a herio eich syniadau a'ch credoau eich hun. Mae'n sicrhau eich bod yn myfyrio ar eich meddylfryd eich hun a'r ffordd rydych yn ymateb i sefyllfaoedd gwahanol, gan ystyried y person cyfan nid dim ond yr elfen perfformiad. ■ ■

■ ■ Mae Mikel yn cysylltu'n dda â'r dosbarth, ac mae'n gyfeillgar iawn ac yn hawdd mynd ato. Mae'r ffordd y mae'n strwythuro ei ddosbarth yn ganmoladwy ac mae'n ystyried y dulliau

gwahanol y gellir eu defnyddio i gyflwyno modiwl. Mae'n athro penigamp ac yn berson hoffus. Mae'n gwneud i bob myfyriwr deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu. ■ ■

■ ■ Mae'n ennyn diddordeb pawb yn y pwnc y mae'n ei addysgu. Mae'n mynd y tu hwnt i egluro pethau drwy gynnwys pawb yn y grŵp yn y broses addysgu. Mae wir yn poeni am ei fyfyrwyr ac am les pawb. Mae'n hawdd iawn mynd ato ac mae'n barod i helpu bob amser. Mae'n ymateb i negeseuon e-bost ac ymholiadau yn gyflym ac mae bob amser wrth law i roi cymorth. Mae'n poeni am ei fyfyrwyr ac mae hynny'n amlwg yn y ffordd y mae'n eu haddysgu ac yn siarad â hwy. ■ ■

■ ■ Mae'n gefnogol ac yn llawn anogaeth pan fydd pobl yn cyflwyno pethau neu'n gwneud gwaith cwrs, gan wneud i bawb deimlo mor gyfforddus â phosibl. Mae'n gwneud i bawb geisio gwneud eu gorau. Ar y cyfan, y darlithydd gorau dwi erioed wedi'i gael. ■ ■

■ ■ Darlithydd ysbrydoledig - mae bob amser yn mynd gam ymhellach i'n helpu. ■ ■

...Mikel Mellick

Cyfweliad â Mikel Mellick

Yn ôl y myfyrwyr, rydych yn rhoi gwedd newydd ar Seicoleg Chwaraeon, yn enwedig ar lefel gradd Meistr. Beth yw'r rheswm am hynny?

Ar lefel gradd meistr, rwy'n cyflwyno'r modiwlau Datblygiad Oes Athletwr - Rheoli Digwyddiadau Bywyd Critigol a Sgiliau ac Agweddau ar Gwnsela i seicolegwyr chwaraeon. Mae'r modiwlau hyn yn rhoi ffocws ar y byd go iawn a golwg fwy cyfannol o'r athletwr/perfformiwr. Felly, lle mae seicoleg chwaraeon yn y DU wedi tueddu i ganolbwyntio'n draddodiadol ar sgiliau meddwl (o leiaf i ddechrau) sy'n gyfarwyddiadol iawn ac yn seiliedig ar dechneg, rwy'n ceisio rhoi golwg ehangach, mwy prif ffrwd ar seicoleg. Felly, rydym yn edrych ar amrywiaeth o dulliau therapiwtig prif ffrwd a sut y gellir eu defnyddio yng nghyd-destun chwaraeon. Rydym hefyd yn trafod y ffordd orau o leoli ein cleientiaid mewn fframwaith o gamau datblygiadol, boed yn fframwaith gwybyddol, seicogymdeithasol, neu beth bynnag. Ond mae hefyd yn ymwneud â mynd i'r afael â chwestiynau heriol mwy dwfn, fel beth yw ein diben mewn bywyd? Sut mae athletwr sy'n cyrraedd ei lawn botensial yn edrych ac yn swnio? Drwy ofyn i fyfyrwyr ôl-raddedig ystyried beth yw ystyr eu bywyd, eu hunaniaeth a'r newidiadau y maent wedi'u gwneud ac y byddant yn eu gwneud, mae'n ei gwneud yn haws iddynt feddwl, 'mae fy nghleientiaid yn mynd drwy brofiadau tebyg ac nid yw'n ymwneud â phryder cyn perfformio yn unig' er enghraifft. Yn hytrach, efallai ei bod yn ceisio help oherwydd bod perthynas wedi torri, eu bod yn symud tŷ, eu bod yn teimlo hiraeth am adref neu gyfuniad o ddigwyddiadau mawr mewn bywyd. Felly, mae'n ymwneud â mabwysiadu golwg ehangach, ceisio gweld yr athletwr fel unigolyn yn ei rinwedd ei hun a'r ffaith ei fod yr un mor agored i'r un heriau mewn bywyd â pherson arferol. Rwyf wedi canfod mai'r ffordd orau o ddangos hyn i'r myfyrwyr yw drwy ofyn i un o'r myfyrwyr benywaidd ddangos y broses o blethu gwallt hir. Mae hwn yn drosiad da ar gyfer ymarfer ym maes seicoleg chwaraeon - mae'n ymwneud â chydblethu amrywiaeth o edafedd er mwyn gwneud rhywbeth sy'n ymarferol ac yn esthetig bleserus i'r unigolyn hwnnw.

Rydych yn siarad am newidiadau mewn bywyd ac un o'r newidiadau y mae'n rhaid i chi eu rheoli o ran eich poblogaeth o fyfyrwyr yw'r newid o fod yn israddedig i fod yn ôl-raddedig. Beth yw'r heriau yn eich barn chi?

Felly, y peth cyntaf rwy'n ei ddweud wrth fyfyrwyr ôl-raddedig o'r cychwyn cyntaf yw eu bod nawr yn gydweithiwr, yn gydweithiwr academaidd, yn hytrach na'n fyfyrwr. Rwy'n ceisio gosod disgwyliad gwahanol (contract dysgu seicolegol), cydberthynas sy'n ymwneud i raddau llawer mwy â thrafod a herio ein gilydd, cynyddu ein meddyliau a'n sylwadau beirniadol, cael trafodaeth hyderus am eu profiadau hwy a'm profiadau i a cheisio rhoi llawer mwy o ffocws ar y byd go iawn. Yn y ffordd hon, gallant ddod i ddeall y byddwn, ar y cyd, yn ymgysylltu'n feirniadol â themâu allweddol a'r ffordd y bydd y themâu hynny yn effeithio ar eu hymarfer fel gweithwyr proffesiynol yn y byd go iawn.

Mae'r myfyrwyr yn sôn am y berthynas sydd gennych â hwy, gan ddweud eich bod yn gefnogol, yn llawn anogaeth ac yn gwneud i fyfyrwyr deimlo mor gyfforddus â phosibl. Pa mor bwysig yw hynny i chi?

Mae'n hollbwysig. Mae dau reswm dros hynny yn fy marn i. Un rheswm yw fy mod yn poeni'n wirioneddol am eu lles ac rwy'n ceisio modelu'r broses gymorth rwyf am iddynt ei dilyn o ran eu cydberthnasau â'u cleientiaid yn y dyfodol. Felly, i ryw raddau, rwy'n modelu'r amgylchedd rwyf am iddynt ei atgynhyrchu. Ond hefyd, oherwydd fy nghefndir mewn seicoleg prif ffrwd, cwnsela a nyrsio, rwy'n gyfarwydd â dulliau sy'n canolbwyntio ar y claf/y cleient/y myfyriwr ac rwy'n ffafrio'r dulliau hynny. Felly mae dulliau sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr yn ymwneud â sicrhau'r amodau iawn lle mae myfyrwyr yn teimlo y gallant gyfrannu ac ymgysylltu â'r broses ddysgu heb wynebu unrhyw fygythiad. Does dim ateb anghywir na chywir, mae'n ymwneud â chael trafodaeth anfeirniadol am eu straeon a'u profiadau mewn bywyd ac yna ceisio cysylltu'r rheini â rhai o'r modelau damcaniaethol a chysyniadol. Os gallwch feithrin y gydberthynas honno a'r dull dysgu hwnnw yn gynnar yna bydd y myfyrwyr yn cyfranogi ac yn ymgysylltu fwyfwy wrth i'r modiwl fynd rhagddo.

Yn eich barn chi, sut allwch chi greu amgylchedd diogel a disgwyliad y ceir ymgysylltu gweithredol â nifer fawr o israddedigion?

Mae'n ymwneud â phennu'r disgwyliadau cywir ynghylch y profiad dysgu yn gynnar iawn. Rwyf hefyd o'r farn bod lefel briodol o hunanddatgelu ac adrodd straeon yn helpu i ddiffinio a modelu disgwyliad o ran dysgu ar y cyd. Rwy'n ceisio achub ar gyfleoedd cynnar i chwalo'r gydberthynas bŵer ganfyddedig rhwng y myfyriwr a'r academydd. Fel academyddion, gallwn ymgolli yn y broses o geisio profi ein 'harbenigrwydd'. Gallwn ymgolli gymaint yn y modelau a'r damcaniaethau fel na all y myfyrwyr weld y cysylltiad rhwng damcaniaeth ac ymarfer yn syth. Mae angen i ni atgyfnerthu'r effaith ar ymarfer drwy ddulliau 'adrodd straeon rhyngweithiol' yn seiliedig ar ymarfer. Os yw'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi goblygiadau'r hyn rydym yn ei drafod ac yn ei ddysgu yn y byd go iawn, yna gallwn ddechrau mynd i'r afael ag unrhyw ddibyniaeth flaenorol ganfyddedig ar ddull addysgu didactig ac, yn hytrach, ganolbwyntio ar gyfranogiad gweithredol ac ymgysylltiad beirniadol.

Gwnaethoch siarad rywfaint am symud i fwrdd o ddarlithoedd didactig. Yn ôl y myfyrwyr, mae eich darlithoedd yn rhyngweithiol ac yn llawn hwyl. Pa fath o bethau rydych yn eu cynnwys i hyrwyddo'r ymdeimlad hwnnw o hwyl?

Rwy'n paratoi cynllun ar gyfer pob sesiwn tair awr. Nid wyf yn eu galw'n ddarlithoedd yn fwriadol. Yn hytrach, rwy'n cyfeirio atynt fel sesiynau dysgu. Rwy'n ceisio cynnwys sawl gweithgaredd sy'n para 15-20 munud yr un. Cymerir egwyl fer (2 i 5 munud) rhwng pob un. Gallai gweithgaredd fod yn gyfres o glipiau fideo sy'n helpu i nodi themâu allweddol a/neu oblygiadau ar gyfer ymarfer. Yn aml, mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau bach lle maent yn gyfrifol am nodi gwybodaeth ar y bwrdd gwyn fel mapiau meddwl a chyflwyno'r wybodaeth honno i fyfyrwyr eraill ei harchwilio'n feirniadol. Fy rôl i yw hwyluso'r drafodaeth honno, nodi'r themâu a'r defnyddiau allweddol a'u hatgyfnerthu drwy'r sleidiau sydd ar gael wedyn ar ddiwedd y ddarlith. Felly, rwy'n ceisio'n fwriadol peidio â defnyddio sleidiau yn ystod y sesiynau dysgu gweithredol. O'r foment y maent yn cerdded i mewn i'r ystafell ac mae'r byrddau wedi'u gosod eisoes mewn arddull 'cabaret' lle mae'r myfyrwyr mewn grwpiau bach, maent yn cydnabod mai sesiwn yn seiliedig ar weithgareddau fydd hon ac y bydd angen iddynt gymryd rhan weithredol ynddi. Rwy'n cychwyn trafodaethau o fewn y grwpiau, yn gofyn iddynt siarad am eu profiadau eu hunain, adlewyrchu ar y profiadau hynny a gofyn cwestiynau i'w gilydd yn hytrach na'm mod i yn gofyn cwestiynau iddynt.



Rwy'n gwneud rhywfaint o waith modelu, felly p'un a yw'n hyd oes neu'n gwnsela neu beth bynnag, rwy'n modelu'r technegau drwy gyfweiliad â chyn-fyfyrwyr ynghylch y themâu allweddol (techneg powlen bysgod). Mae'n bwysig eu bod yn meithrin ymwybyddiaeth o'r cysylltiad rhwng damcaniaeth ac ymarfer. Felly, mae'n ymwneud ag amrywiaeth o dechnegau a chyfleoedd i herio, trafod a holi.

Pe bai gofyn i chi roi un darn o gyngor i newydd-ddyfodiad, darlithydd newydd, beth fyddai'r cyngor hwnnw?

I fod â'r hyder, os gallwch sicrhau bod yr amodau dysgu iawn ar gyfer myfyrwyr yn gynnar, y byddant yn ymgysylltu ac ni fyddant yn eistedd yna'n oddefol. Os gallwch fynd i mewn yno gyda'r agwedd mai cydweithwyr ydynt ac rydym yn mynd i greu/hwyluso amgylchedd dysgu anfygythiol sy'n croesawu her, yna mi fydd hi'n hwyl, yn gyffrous ac yn gydweithredol. I fod â'r hyder y gallwch hwyluso'r amgylchedd dysgu hwnnw drwy amrywiaeth o brosesau dysgu ac nad oes angen i chi ddibynnu ar gynnwys gwerslyfrau a chyflwyniadau didactig yn unig. Mewn geiriau eraill, adroddwch straeon rhyngweithiol / cynhaliwch drafodaethau. Defnyddiwch bob sesiwn ddysgu i ddarparu'r sgaffaldiau sy'n ategu profiad dysgu'r myfyrwyr. "Rhowch yr adnoddau a'r sgaffaldiau iddynt ond gadewch iddynt adeiladu eu wal eu hunain!"

Dysgu Cydweithredol ar gyfer Myfyrwyr Ôl- raddedig: Techneg Powlen Bysgod



Mae dysgu cydweithredol yn seiliedig ar y farn bod gwybodaeth yn ddyfais gymdeithasol. Yn fwyaf aml, mae gweithgareddau cydweithredol yn seiliedig ar bedair egwyddor:

- Y dysgwr neu'r myfyriwr yw prif ffocws y cyfarwyddyd
- Mae rhyngweithio a "gwneud" yn hollbwysig
- Mae gweithio mewn grwpiau yn ffordd bwysig o ddysgu
- Dylai dulliau strwythuredig o ddatblygu atebion i broblemau go iawn gael eu hymgorffori yn y broses ddysgu

Gall dysgu cydweithredol ddigwydd rhwng cyfoedion neu mewn grwpiau mwy o faint. Mae dysgu cyfoedion, neu gyfarwyddyd cyfoedion, yn fath o ddysgu cydweithredol sy'n cynnwys myfyrwyr yn gweithio mewn paruau neu grwpiau bach i drafod cysyniadau, neu ddod o hyd i atebion i broblemau. Mae hyn yn digwydd yn aml mewn sesiwn yn y dosbarth ar ôl i fyfyrwyr gael eu cyflwyno i ddeunydd y cwrs drwy ddarlleniadau neu fideos.

(Canolfan ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu, Prifysgol Cornell, UDA)

Beth mae'n ei gyflawni:

Mae gweithgareddau dysgu cydweithredol yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr:

- Ymgysylltu â thrafodaethau pwnc-benodol â'u cyfoedion
- Dysgu sut i gydweithio a chefnogi ei gilydd
- Meithrin sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu effeithiol (gan gynnwys ymwybyddiaeth ryngpersonol a thrawsddiwylliannol)
- Cymathu safbwyntiau lluosog er mwyn gwella gwybodaeth a hyrwyddo'r broses o feddwl yn feirniadol
- Meithrin atebolrwydd unigolion i'r tîm
- Datblygu strategaethau dysgu annibynnol
- Strwythuro dysgu y tu allan i'r dosbarth
- Lleihau'r ymdeimlad o ynysu ymhlith dysgwyr

(Curtin Teaching and Learning, Prifysgol Curtin, Awstralia)

Sut i fynd ati:

1. Gofynnwch i grŵp bach (rhwng tri a phump) o gyn-fyfyrwyr (a/neu fyfyrwyr presennol) ddod i mewn i'r dosbarth a ffurfio cylch, a gofynnwch i'r myfyrwyr sy'n weddill ffurfio cylch mwy o faint o amgylch y cylch cyntaf.
2. Rhowch y cyfarwyddiadau canlynol i bob cyfranogwr: dim ond y rhai yn y cylch mewnol fydd yn siarad; bydd y myfyrwyr yn y cylch allanol yn arsylwi ac yn cymryd nodiadau ar gynnwys a phroses y grŵp; er na fydd yr arsylwyr yn siarad yn ystod y drafodaeth Powlen Bysgod, cânt y cyfle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi yn y drafodaeth ddilynol.
3. Rhowch gwestiwn i'r rhai yn y cylch mewnol i'w drafod a/neu gofynnwch iddynt gyflawni tasg, fel datrys problemau'n ymwneud ag ymarfer go iawn.
4. Ar ôl y sesiwn Powlen Bysgod gychwynnol, caniatewch i fyfyrwyr o'r cylch allanol ymuno â'r cylch mewnol drwy osod nodyn 'post-it' ar gadair yr aelod a chyfnewid lleoedd ydag ef neu hi.
5. Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau o dri neu bedwar i adolygu eu nodiadau a chofnodi themâu allweddol ar y byrddau gwyn (papur siart troi) a ddarperir. Gofynnwch i'r myfyrwyr adrodd yn ôl mewn trafodaeth dosbarth cyfan, gan fynd i'r afael â materion a gododd o ran cynnwys a rhoi sylwadau ar brosesau'r grŵp.

(Barkley, E, Major, C a Cross, K. (2014), Collaborative learning techniques: a handbook for college faculty, 2il Argraffiad, Jossey-Bass: San Francisco)

Yr adnoddau sydd eu hangen:

Cadeiriau symudol a digon o le yn yr ystafell ddosbarth i ffurfio'r cylchoedd. Bwrdd gwyn a marcwyr (neu bapur siart troi) i alluogi'r rhai yn y cylch allanol i gofnodi themâu/materion allweddol ac ati i'w trafod fel grŵp cyfan yn ddiweddarach.

Awgrymiadau

Cyfunwch y gweithgaredd hwn gydag un grŵp yn chwarae rôl tra bod grŵp arall yn gwyllo mewn cylch allanol. Yna gadewch i aelodau'r grŵp gyfnewid lle drwy dagio. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol iawn o gynnwys myfyrwyr mewn gweithgaredd creadigol a chyfranogol sy'n gofyn iddynt ddefnyddio cysyniadau i'r modiwl mewn senarios ymarfer go iawn mewn amgylchedd anfygythiol.

Cyfathrebu Effeithiol

Themâu sy'n deillio o'r enwebiadau:

Yr hyn yr oedd gan y myfyrwyr i'w ddweud...

- Gallu cyfathrebu'n effeithiol at ddibenion gwahanol ac mewn cyd-destunau gwahanol.
- Defnyddio'r dull cyfathrebu sy'n briodol i sefyllfa benodol gan gynnwys cyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig, yn rhifyddol ac yn graffigol.
- Cyfathrebu'n effeithiol ag eraill, gan ddefnyddio technolegau digidol ac ymgysylltu'n gynhyrchiol â chymunedau ar-lein perthnasol.

▣▣ Gwnaeth (enw) fy ngwahodd i a rhai myfyrwyr eraill i drafod fy ngwaith ar Radio Cardiff, gan dreulio oriau ychwanegol yn trafod ac yn cynllunio'r sioe, ac rydym yn gwneud mwy o sioeau radio yn y dyfodol gyda myfyrwyr brwdfrydig o'r flwyddyn gyntaf. Byddwn yn disgrifio rhywfaint o'r hyn y mae (enw) yn ei wneud fel troi amheuan myfyrwyr a meysydd y maent yn gyfforddus â hwy o ran eu gwaith yn chwilfrydedd ac uchelgais. I mi, mae wedi fy helpu i ganfod cyfeiriad yn fy ngwaith nad oeddwn yn credu a oedd yn bosibl cyn dechrau'r cwrs. ▣▣

▣▣ Mae'n annog trafodaeth ym mhob darlith. Mae'n gwneud yn siŵr ein bod yn lleisio ein barn ac mae'n rhoi cyfle i bawb siarad. Mae'n amlwg ei bod hi'n gwybod ei phethau ac mae hyn yn disgleirio drwyddo yn ystod darlithoedd. Mae hyn hefyd yn fy ysbrydoli i ymchwilio ymhellach i'r pwnc. Mae bob amser yn gofyn cwestiynau penodol ac, os na roddir atebion yn syth, mae hi'n rhoi rhai enghreifftiau er mwyn annog ymateb. Yna mae'n gofyn i bobl na fyddent yn siarad mewn darlithoedd fel arfer ac yn eu hannog i leisio eu barn. Mae hyn yn arwain at drafodaethau diddorol ac yn ein hannog i feddl yn feiriadol sy'n golygu bod y darlithoedd yn llawer mwy diddorol. ▣▣

▣▣ Mae'n annog trafodaeth iach am faterion dadleuol ac nid yw byth yn gwthio ei barn ar unrhyw un ohonom, sy'n golygu y gallwn ddod i'n casgliadau ein hunain. ▣▣

▣▣ Rwyf bob amser wedi cael fy ysbrydoli gan ei gwybodaeth ddiddiwedd am ysgrifennu a llenyddiaeth. Mae hi wastad wedi gwybod i ba gyfeiriad y mae angen i mi fynd pan rwyf wedi cael trafferthion gyda fy ysgrifennu. ▣▣

▣▣ Mae (enw) yn holi pobl yn gyson. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi arwain at welliant mawr o ran fy sgiliau meddwl beirniadol. O ran fy nhraethodau, rwyf bellach yn llawer mwy hyderus y gallaf ennill marciau am fod yn feiriadol, ac rwy'n canfod fy hun yn cwestiynu unrhyw ddatganiadau y gallaf ei wneud. Rwy'n credu bod dylanwad (enw) wedi fy ngalluogi i wneud hyn. ▣▣

▣▣ Pan wnaethom ddechrau, nid oeddem wir yn adnabod ein gilydd yn dda ond roedd gennym gyflwyniad grŵp i'w wneud ar gyfer y cyfryngau. Gyda'n gilydd, gwnaethom ofyn i (enw) ein rhoi mewn grwpiau er mwyn i ni allu dod i adnabod ein gilydd. Fe wnaeth hynny a gwrandawodd ar yr hyn yr oeddwn ei eisiau. ▣▣



Dyfarnwyd yr Ysgoloriaeth Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr am **Ragoriaeth Addysgu yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd** i...

Mae addysgu Amelia yn mynd y tu hwnt i'r cwrs - p'un a yw'n darllen llenyddiaeth sy'n ysgogi'r meddwl ar goedd i'r dosbarth yn ystod gweithdai, neu roi myfyrwyr ar y radio bob wythnos i drafod y maes darlunio. Mae'n gwthio athroniaeth darlunio fel ffordd ddeongliadol ac ysbrydoledig o gyfathrebu, ac fel adnodd i'w ddefnyddio i gynnwys pobl mewn pynciau o bwys, neu bynciau a ddylai fod o bwys i bobl.

■ Mae ganddi gyfoeth o wybodaeth ac mae'n defnyddio'r wybodaeth honno i'ch tywys i'r cyfeiriad cywir gyda syniadau; er enghraifft, mae wedi dangos artistiaid i mi i ysbrydoli fy ngwaith ac mae wedi fy nghyfeirio at yr aelod cywir o staff y brifysgol i helpu gyda syniad. Mae'n diwtor ysbrydoledig iawn. Mae ei gwaith yn bwerus ac yn herio'r ffiniau rhwng gweithgareddau, er enghraifft, ei phrosiect 'Run to Draw'. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n ein hannog ni i'w wneud - bod yn ddewr a chymryd risgiau gyda'n gwaith. ■■

■ Mae Amelia wedi fy helpu a'm hannog i archwilio amrywiol ffordd o adrodd straeon gweledol. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael y rhyddid i archwilio fy syniadau gan ddefnyddio gwahanol ddeilliannau, o beintio a serameg i greu gosodiadau, ac rwyf wedi bod wrth fy modd gyda'r ffordd y mae Amelia wedi annog y dull trawsddisgyblaethol hwn o ddarlunio. Mae Amelia yn aml yn dweud pa mor bwysig ydyw i greu gwaith sy'n siarad ac sy'n adrodd stori. ■■

■ Dangosodd Amelia ffordd newydd, hynod effeithiol o weithio i mi a'm galluogodd i ddatblygu fy ymarfer yn gyflym. Gwnaeth hyn gynyddu fy nghreadigrwydd a'm cynhyrchiant, a chynyddodd fy hyder wrth i mi sylweddoli ei fod wir yn arwain rhywle a bod y canlyniad yn parhau i wella. ■■

■ Mae'n ein haddysgu ynghylch pa mor bwysig yw delio â phynciau difrifol a sensitif yn ein gwaith ond, ar yr un pryd, mae'n chwistrellu ymdeimlad o hwyl yn y gwaith rydym yn ei wneud. Mae ei hasesiadau a'i hadborth yn adeiladol bob amser ac mae'n rhoi ymdeimlad cryfach o gyfeiriad i chi am ei bod yn siarad â ni fel oedolion ond yn ein meithrin fel myfyrwyr. Oherwydd hyn rwyf wedi dysgu cymaint yn barod ac rwy'n teimlo na allwn fod mewn lle gwell i fod yn astudio fy ngradd. ■■

■ Mae Amelia wir yn ysbrydoledig. Mae'n llwyddo i ymdopi â bod yn arweinydd pwnc ac yn fyfyrwraig PhD gyda'i hymarfer ei hun o redeg marathonau tra'n darlunio, trefnu Ymchwil Darlunio, ei chwmmi pypedau ei hun (P*A*ST), symposiwm sioe gysgodion Cracow ac, yn olaf, ei hymarfer mwyaf diweddar sef 'Illustration Radio' ar gyfer Radio Cardiff. Mae dilyniant cyson Amelia a'i phrosiectau amrywiol wedi ein helpu ni (ei myfyrwyr) i ddeall natur amrywiol y pwnc (darlunio) ac wedi helpu i sicrhau bod y cwrs yng Nghaerdydd yn fywiog, wedi'i gyfoethogi ac, yn anad dim, yn gyffrous. ■■

...Amelia Johnstone

Cyfweliad â Amelia Johnstone

Mae'r myfyrwyr wedi sôn am natur arloesol y cwrs darlunio a'r dull trawsddisgyblaethol a fabwysiadwyd. Allwch chi ddweud wrthyf beth maent yn ei olygu wrth hynny?

Am flynyddoedd lawer, mae darlunio wedi cael ei roi mewn bocs ac rwyf bob amser wedi neidio allan o'r bocs hwnnw ac wedi dweud nad yw darlunio o reidrwydd yn ymwneud ag arlunio neu dynnu llun. Nid yw o reidrwydd yn ymateb i destun. Mae darlunio yn ymwneud â chyfathrebu. Mae'n ymwneud â chyfleu gwybodaeth anodd a sensitif i bobl mewn ffordd sy'n eu cynnwys ac nad yw'n nawddoglyd. Felly, rydym yn archwilio llawer o wahanol ffyrdd y gall darlunio fod yn un peth neu'n rhywbeth arall neu'n rhywbeth arall. Oherwydd y ffordd y mae'r cyfryngau wedi newid yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae darlunio wedi gorfod archwilio ei hun drwy'r cyfryngau newydd hynny ac mae darlunwyr wedi dod yn fwy awdurdodol o ran eu gwaith, yn fwy newyddiadurol ac yn fwy awdurol. Felly, rwy'n annog darlunio, fel disgyblaeth, i dorri tir newydd. Mae darlunwyr, ac rwy'n tybio mai dyma sy'n ddadleuol, wedi dechrau, yn hytrach na benthg oddi wrth ddisgyblaethau eraill, fynd atynt a gweld beth maent yn ei wneud cyn dod â'r wybodaeth honno a'r sgiliau a'r methodolegau hynny yn ôl a'u troi'n ffyrdd y gallwn eu defnyddio i gyfathrebu. Felly mae'n drawsddisgyblaethol ond mae hefyd yn croesi pynciau ymhob ffordd oherwydd nid yw darlunio'n ymwneud â darlunio'n unig, mae'n ymwneud â phopeth.

Un o'r pethau y soniodd y myfyrwyr amdano oedd y ffordd rydych yn eu gwthio i ymdrin â phynciau difrifol a sensitif ac i beidio â'u hosgoi.

Mae cyfathrebu'n bwysig ac mae'n arbennig o anodd i gyfathrebu pethau ofnadwy ac mae cymaint o bethau erchyll yn digwydd yn y byd ar y funud, a bydd hynny fwy na thebyg yn parhau. Ond, rwy'n credu, os edrychwn ar bynciau difrifol a sensitif a mynd i'r afael â hwy, yna, fel darlunwyr, pan awn ati i gyfleu hynny i gynulleidfa, ceir empathi rhwng y gwaith, y darlunydd a'r gynulleidfa a gall hynny fod yn bwerus iawn. Felly mae'r tri ohonom (Chris, Anna a minnau) yn annog ein myfyrwyr i feddwl am y pynciau sensitif hynny, oherwydd mae'n bwysig

bod rhywun ymdrin â'r pynciau hynny ac rwy'n credu mai lle darlunwyr yw ymdrin â'r pethau hynny. Gallai fod yn rhywbeth fel bwlio yn ystod plentyndod neu'n rhywbeth sy'n ymwneud ag iselder neu glefyd Alzheimer's neu drais. Mae un o'n myfyrwyr yn gwneud prosiect am FGM. Mae hwnnw'n bwnc anodd iawn ond, y tu hwnt i'r pwnc ei hun, mae hefyd yn sensitif iawn yn ddiwylliannol. Felly, allwn ni ddim barnu'r pethau hynny - rhaid i ni beidio â'u barnu. Ein lle ni yw eistedd yn y canol a gadael i'r darluniau siarad â'u cynulleidfa. Rwy'n sôn am ddarlunio fel disgyblaeth siaradus - un sy'n siarad yn uniongyrchol â'i chynulleidfa, sy'n estyn llawn ac yn eich tynnu i mewn. Os ydych yn mynd i orfod siarad am rywbeth felly (FGM), mae angen i chi ddeall popeth amdano o safbwynt pob math o berson, beth fydd eu barn ar y pwnc. Gallech gymryd safbwynt penodol ac rydym yn sôn am safbwyntiau cryn dipyn, ond ar ôl i'r myfyrwyr gymryd safbwynt rwy'n gofyn iddynt gamu i esgidiau pob person arall â barn am y pwnc er mwyn deall sut y gallant gyflwyno eu gwaith iddynt.

Yn ôl y myfyrwyr, mae eich adborth yn adeiladol, yn onest ac yn feirniadol ac mae'n rhoi ymdeimlad o gyfeiriad iddynt. Sut rydych yn osgoi gwthio eich syniadau arnynt tra'n rhoi cyfarwyddyd iddynt ar yr un pryd?

Rwy'n siarad amdano ni [y darlithwyr] fel catalydd. Felly, bydd y myfyrwyr yn dweud yn aml 'onid eich syniad chi oedd hwnnw' a byddaf wrth gwrs yn dweud nad fy syniad i ydoedd oherwydd fyddwn i byth wedi dweud hynny wrthyf chi pe na baech wedi dweud hynny wrthyf i. Mae'n ymwneud â datblygu deialog a thrafodaeth â'r myfyriwr. Rwy'n dweud wrthynt y byddaf yn gweithio gyda phob un ohonynt yn unigol er mwyn iddynt allu datblygu i fod y darlunwyr gorau y gallant, oherwydd rwyf am eu gweld yn tyfu fel unigolion yn hytrach na chreu llawer o ddarlunwyr fel fi. Ni fyddai hynny'n beth da! Felly mae'r cwrs yn edrych ar y ffordd y mae myfyrwyr yn meddwl, nid o reidrwydd y ffordd maent yn gwneud y gwaith. Felly gallwn siarad yn feirniadol am y gwaith ei hun, ynghylch p'un a yw'n gweithio ai peidio yn y cyd-destun y mae angen iddo weithio ynddo. Rwy'n mynd yn hynod gyffrous am waith myfyrwyr, yn hynod gyffrous

am y posibiladau ac rwy'n eu hannog. Mae bron yn ymdeimlad o'u hysgogi i wneud eu gorau, tra'n rhoi'r brwdfrydedd sydd ei angen arnynt a'r hyder i gymryd y gwaith hwnnw a gwneud iddo lwyddo iddynt hwy eu hunain, ac rwyf wir yn credu y gallaf wneud hynny.

Un o'r pethau y soniodd y myfyrwyr amdano oedd sut y gwnaethant gymryd rhan yn 'illustration radio', a oedd yn gysyniad newydd i mi. Allwch chi esbonio?

Wel, rwy'n credu bod radio a darlunio yn gyfryngau eithaf tebyg. Rwy'n siarad am ddarlunio fel ffurf gelfyddydol 'encounterable' ac mae'r profiadau y mae rhywun yn eu cael ar y radio yn debyg. Tyfais i fyny yn gwrando ar radio 4 oherwydd dyna roedd fy mam yn gwrando arno a byddwn yn tynnu'r lluniau a fyddai'n dod i'm pen o'r radio wrth fwrdd y gegin. Roeddent yn rhai hynod bwerus. Rwy'n credu bod y radio yn llawn lluniau, yn ffurf arall ar ddarlunio. Rwyf wedi ymuno â 'pitch radio' i wneud 'illustration radio' ar Radio Cardiff. Rwyf wedi bod yn gofyn i fyfyrwyr ddod i siarad am eu gwaith. I unrhyw un sy'n gwrando, mae'n debyg i bobl yn siarad am goginio neu deithio ar y radio, rydych yn cael llawer mwy o deimlad. Mae'n debyg i rywun yn dod i eistedd drws nesaf i chi ac yn cael sgwrs â chi, a dyna'r hyn y mae darluniau yn eu gwneud hefyd. Mae dyfodol 'illustration radio' yn ddisglair, oherwydd nid yn unig y mae'n gwneud myfyrwyr yn gyffrous iawn ond mae hefyd yn rhoi'r hyder a'r help iddynt dyfu mewn gwahanol ffyrdd. Mae hefyd yn datblygu darlunio fel disgyblaeth yn llawn, gan roi llais i ddarlunwyr nad oes ganddynt lais yn aml.

Un peth arall y soniodd y myfyrwyr amdano oedd 'run to draw'. Allwch chi ddweud rhywfaint wrthyf am hyn?

Wel, rhedeg a thynnu lluniau ar yr un pryd yw pwnc fy PhD. Rwy'n archwilio'r syniad o wneud dau beth ar yr un pryd. Fy syniad i yw rhedeg drwy'r holl wledydd a rwygwyd gan ryfel, i ddod yn ddarlunydd teithiol sy'n rhedeg ac yn tynnu lluniau ledled y byd. Mae'r PhD yn ymwneud ag archwilio creadigrwydd artistig a gweithgarwch corfforol, ond rwy'n ddarlunydd â chryn ddychymyg, alla' i ddim gwneud pethau yn y ffordd arferol, mae'n rhaid i mi ei wneud mewn ffordd greadigol iawn. Mae angen diben arnaf hefyd; mae'n rhaid bod diben i ddarluniau bob amser. Y syniad arall yw, drwy redeg a thynnu lluniau, y byddaf yn darganfod pethau a fydd yn fy helpu i lywio polisi addysgol ym maes chwaraeon a chelf, a fyddai'n wych. Pan oeddwn i'n blentyn, cefais fy annog i beidio â chymryd rhan mewn chwaraeon a phethau felly gan nad oeddwn yn dda iawn. Mae gennyf ddiddordeb mewn plant yn



eu harddegau, gan mai dyna'r cyfnod anoddaf ym mywyd unrhyw un yn fy marn i, ac nid yw'r byd yn edrych arnynt mewn ffordd gadarnhaol iawn. Efallai y gallai rhai o'r gweithgareddau rhyfedd y mae plant yn eu harddegau yn eu mwynhau weithio os dechreuwn edrych ar un gweithgaredd ar y cyd ag un arall, ac mae'r syniad bod llawer o bobl yn anweithgar yn gorfforol yn yr oes sydd ohoni yn gwneud i mi feddwl bod rhywbeth y gellir ei gymryd o hyn.

Felly, yn olaf, rydych yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y byd gwaith. Pa mor bwysig yw hynny yn eich barn chi?

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn oherwydd rydym oll yn byw gyda chymaint o ansicrwydd ac ni allwn baratoi pob myfyrwr i ddod yn ddarlunydd. Mae angen iddynt ddeall bod ganddynt gyfrifoldebau mewn llawer o wahanol ffyrdd a chyfleoedd mewn llawer o wahanol leoedd. Drwy eu hannog i ddod yn unigolion a bod yn drw iddynt hwy eu hunain, maent yn tyfu i fyny cryn dipyn yn ystod y cwrs. Rwy'n rhoi ymdeimlad o hyder iddynt yn eu gallu eu hunain ac yn egluro iddynt nad yw'n mynd i ddigwydd yn syth a bod yn rhaid wynebu siomedigaeth weithiau. Ond mae paratoi ar gyfer siomedigaeth yn bwysig hefyd ac mae sylweddoli bod pethau'n cymryd amser yn hollbwysig. Mae'n ymwneud â chreu cysylltiad, nid dim ond â realiti'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gyflogai yn y byd sydd ohoni ac i fod yn gyflogadwy, ond sut brofiad fydd hynny mewn ffordd realistig. Rydym yn eu paratoi i feddu ar ymdeimlad o'u huichelgais eu hunain, i fod yn arloesol ac yn entrepreneuriaidd. Nid oes tudalennau ar dudalennau o swyddi i ddarlunwyr yn y papurau; nid ydych yn cael swydd barhaol fel ddarlunydd. Rwy'n gweld y posibiladau ar gyfer y ddisgyblaeth, rhyw fath o eiriolwr ar gyfer y manau lle y gallai fynd a'r hyn y gall ei wneud a sut y gall y ddisgyblaeth, yr wyf wir yn ei charu, wneud gwahaniaeth enfawr yn y byd, a dyna pam bod y myfyrwyr yno.



'The Good Human'

Yr hyn y mae'n ei gyflawni:

Y budd a geir yw bod dysgwyr yn gweld eu hunain yng nghyd-destun eu galluoedd a'u profiadau eu hunain ac y gallant asesu eu llwyddiant eu hunain y tu hwnt i feini prawf er mwyn llunio portffolio o sgiliau bywyd sy'n eu galluogi i ddod yn bobl dda, yn ddinasyddion y byd.

Mae'n hanfodol ystyried pob myfyriwr fel unigolyn sydd ag uchelgeisiau a nodau unigol ac sydd â chyfrifoldeb unigol o ran ei waith ac yn y byd.

Mewn byd lle mae dod o hyd i waith yn fwyfwy anodd, yr egwyddor sy'n sail i'r 'athroniaeth' yn hytrach na'r adnodd hwn, yw ystyried pob myfyriwr fel unigolyn a'i alluogi i weithio yn unol â'i gryfderau a llunio portffolio o sgiliau unigryw sy'n rhan o'r ddisgyblaeth estynedig, sef bod yn berson da. Drwy brosiectau parhaus, fel 'Illustration Radio', lle y caiff myfyrywyr y cyfle i ganfod eu llais darluniadol mewn amgylchedd cymunedol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u cynulleidfaoedd, nas gwelwyd eto.

Fel tîm, mae gennym oll ein diddordebau a'n huchelgeisiau ymchwil ein hunain a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn esblygiad parhaus y ddisgyblaeth a'i phwysigrwydd drwy'r ymchwil ym maes darlunio a sefydlwyd yng Nghaerdydd yn 2010 ac sydd bellach yn rhwydwaith byd-eang. Rydym yn cyflwyno'r hyn a alwn yn 'fyfyrdodau' ar ein gwaith a'n hymchwil, gan eu hymgorffori ym mhrosiectau ac uchelgeisiau'r myfyrywyr. O'r herwydd, daw uchelgais cyfunol y cwrs yn fwy unigryw ac arbennig, yn symud yn gyson, byth yn un peth ond yn sawl peth ysblennydd. Mae hyn yn cyrraedd y tu hwnt i'r hyn rydym yn ei wneud bob dydd fel darlunwyr, ond yn fwy tuag at ystyriaethau pwysig eraill fel gwleidyddiaeth, meddygaeth ac elusengarwch. Drwy briffiadau sy'n archwilio pynciau gwyddonol a phynciau o straeon newyddion cyfredol, daw myfyrywyr darlunio yn bobl fwy deallus a hyddysg sydd â safle cadarn yn y byd. Rydym yn dychmygu'r posibilrwydd o fyd gwell.

Sut i fynd ati:

Mewn briffiadau a darlithoedd, amlinellwch gyfrifoldeb myfyrywyr, nid dim ond nawr ond mewn cyflogaeth ar ôl iddynt adael y brifysgol, i fod yn empathetig, i ystyried pobl eraill ac i ystyried yr hyn y maent wedi'i ddysgu fel darlunwyr o ran y ffordd y maent yn cyfathrebu â phobl yn y byd.

Gweithwch gyda'r myfyrywyr yn unigol i ddatblygu cynnwys yn eu gwaith sy'n archwilio hyn ac sy'n rhoi ymdeimlad da o ddiben i'w gwaith y tu hwnt i gyflawni gradd dda.

Nodwch eu cyflawniad personol eu hunain gyda'r myfyrywyr, er mwyn datblygu agwedd gadarnhaol ac uchelgais personol.

Awgrymiadau

Mae'r athroniaeth hon yn ymwneud â meddwl yn yr hirdymor fel bodau dynol yn y byd, y tu allan i amgylchedd diogel y brifysgol. Mae'n ymwneud ag addysgu'r unigolyn i fod yn ymwybodol ohono'i hun a phobl eraill ym mhob sefyllfa, i fod yn fwy cyflogadwy ac i wneud pethau da yn y gyflogaeth honno, ac i fod yn berson da.

Dinasyddiaeth fyd-eang (Amrywiaeth a Chynaliadwyedd)

Themâu sy'n deillio o'r enwebiadau: *Yr hyn yr oedd gan y myfyrwyr i'w ddweud...*

- Gweld eu hunain fel rhan o gymuned fwy a chydabod yr effaith y mae eu penderfyniadau a'u gweithredoedd yn ei chael ar y rhai o'u hamgylch.
- Meddu ar safbwynt rhyngwladol a'r cymhwysedd rhyngddiwylliannol i ymgysylltu'n effeithiol â'r amgylcheddau y maent yn gweithredu ynddynt.
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygu cynaliadwy.

■ Mae gan y tiwtor hwn gefndir ym maes (proffesiwn) sy'n golygu y gall roi cipolwg o'r hyn y mae'n ei olygu i weithio yn ein gyrfaoedd dymunol a chymhwyso'r sgiliau rydym wedi bod yn eu dysgu. Mae'r ffordd y mae'n rhoi cipolwg ar y diwydiant hwn yn teimlo fel pe bai'n dod o bersbectif 'ffresh'. Mae'n aml yn cyfeirio at ei phrofiad yn y gweithle, gan atgyfnerthu cynnwys ei darlithoedd ymhellach. Y cyfeiriadau hyn a chynnwys cyffredinol y darlithoedd (cwestiynau agored ac ati) sy'n arwain myfyrwyr i feddwl yn feiriadol am y pwnc dan sylw ac sydd wedyn yn eu hysbrydoli i feithrin gwybodaeth. 🗨️

■ Mae'n mynd ati i helpu myfyrwyr i fynychu cynadleddau, ennill grantiau/ysgoloriaethau ymchwil, cymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid a rhwydweithiau academiaidd amlddisgyblaethol, a chydweithio â sefydliadau academiaidd, diwydiant a darparwyr gofal iechyd. 🗨️

■ Mae ei fodiwl yn sôn am gynhesu byd-eang a pha mor bwysig ydyw bod busnesau yn creu'r effaith leiaf bosibl ar y byd. Mae ei asesiadau yn ein hysbrydoli i addysgu pobl eraill a gallu ateb cwestiynau pan fydd pobl am wybod mwy. 🗨️

■ Mae (enw) yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr deithio i wledydd eraill i ymgymryd â phrosiectau eraill. 🗨️

■ Mae (enw) wedi rhoi golwg ehangach i mi o'r byd gwaith, ac wedi fy helpu i ehangu fy arddulliau arwain a rheoli i gynnwys amrywiaeth o wahanol arddulliau. Mae bob amser yn datblygu ffyrdd newydd a llawn hwyl o ddysgu mewn gwersi (nad yw'n cynnwys eistedd a dysgu o fwrdd). Rydych yn mynd ati i wneud pethau a chymhwyso damcaniaethau, sef y ffordd orau o ddysgu i mi. Oherwydd (enw), rwy'n credu y byddaf yn arweinydd/rheolwr gwell ryw ddiwrnod. 🗨️

■ Mae'n ddarlithydd y mae'n hawdd mynd ato ac mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr ar y cwrs gan gynnwys Gŵyl Glastonbury, digwyddiadau corfforaethol, gweithio gyda'i gleientiaid yn ogystal â sawl digwyddiad o amgylch y ddinas. Mae bob amser yn annog myfyrwyr i ddod i weithio gydag ef yn y diwydiant er mwyn iddynt feithrin gwell dealltwriaeth o'r ddamcaniaeth y mae'n ei haddysgu mewn darlithoedd. 🗨️



Dyfarnwyd yr Ysgoloriaeth Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr am **Ragoriaeth Addysgu yn Ysgol Reoli Caerdydd** i...

Mae wedi bod yn wych eleni, yn cyflwyno ffyrdd newydd o asesu myfyrwyr ac yn helpu ar bob cam. Rwy'n edmygu'r ffaith ei fod yn rhoi cynnig ar syniadau newydd bob amser. Mae hyn wedi sicrhau bod fy nhrydedd flwyddyn yn llawer mwy diddorol.

▀▀ Mae Mark nid yn unig yn darparu cyrsiau i ni, ond mae hefyd yn cynnig amgylchedd sy'n annog dysgu. Ond, uwchlaw popeth, mae'n hyrwyddo ymddiriedaeth ac ymdeimlad o berthyn. Mae ei ddsbarthiadau yn fwy gwreiddiol na darlithoedd arferol gyda llawer o ryngweithio ac adnoddau anhraddodiadol (profiadau yn yr awyr agored, trafodaethau, ciwbiau lluniau i fynegi syniadau, mapiau meddwl, blogiau, podlediadau ac ati) ar y cyd â rhai traddodiadol. Mae meddwl yn feirniadol yn amcan ym mhob un o'n gwersi. Mae'n darparu llawer o ddeunydd ychwanegol er mwyn ein hannog i ehangu ein gwybodaeth. Er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl, mae Mark wedi rhoi asesiadau ffurfiannol i ni mewn llawer o'n ddsbarthiadau (yn enwedig yn ystod y tymor cyntaf) a, diolch i'w adborth, mae hyn wedi rhoi cyfle i ni wella. Ac yn olaf, mae Mark yn ddarlithydd brwdfrydig ac optimistaidd sy'n creu amgylchedd sy'n eich cymell i wrando, dysgu ac ymgysylltu. ▀▀

▀▀ Mae Mark yn athro creadigol ac arloesol iawn. Mae bob amser yn defnyddio gweithgareddau a dulliau asesu diddorol. Mae'n ymgysylltu â phob myfyriwr yn y ddsbarth ac yn annog trafodaethau. Ar gyfer un o'r asesiadau, roedd yn rhaid i ni ysgrifennu blog cyfunol. Ar gyfer asesiad arall, mae'n rhaid i ni lunio llyfr loffion. Mae bob amser yn arbroti gyda dulliau newydd o roi adborth fel podlediadau a chyfarfodydd un-i-un. Mae'n athro cefnogol a chreadigol sy'n ein trin fel cydweithwyr yn hytrach na'i fyfyrwyr. ▀▀

▀▀ Mae Mark yn rhoi darlithoedd a seminarau diddorol. Mae'n hynod wybodus yn ei faes. Mae ei ffyrdd brwdfrydig a chreadigol o addysgu yn fy helpu i ddysgu. Dylai gael ei gydnabod am hyn. ▀▀

▀▀ Mae darlithoedd Mark yn ddiddorol ac mae ei ddsbarthiadau seminar yn llawn hwyl a thrafodaethau diddorol. Mae Mark yn athro brwdfrydig sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer ei fyfyrwyr drwy gymryd yr amser i gwrdd â ni'n unigol i drafod ein gwaith. Mae ganddo arddull addysgu greadigol iawn, ac mae bob amser yn ein gwthio i wneud yn well ac yn ein helpu i gydnabod ein potensial. ▀▀

▀▀ Mae'n ein hannog i fod yn greadigol a meddwl yn feirniadol yn ei ddsbarth. Mae ganddo ffordd greadigol iawn o addysgu ei fyfyrwyr hefyd. Mae bob amser yn ein hannog i drafod. Mae Mark ar gael bob amser naill ai drwy e-bost neu wyneb yn wyneb (ar ôl ddsbarth, yn ei swyddfa, hyd yn oed ar y coridor). ▀▀

...Mark Sutcliffe

Cyfweliad â Mark Sutcliffe

Mae'r myfyrwyr wedi sôn am eich arddull addysgu greadigol, sy'n eu hannog i fod yn greadigol a meddwl yn feirniadol yn eich dosbarth. Allwch chi roi cipolwg i mi ar hyn?

Wel, rwyf bob amser yn ceisio sicrhau bod yr hyn rwy'n ei addysgu a'r modd rwy'n ei addysgu yn heriol ac, yn aml iawn, mae hynny'n golygu defnyddio deunydd mewn ffordd greadigol, nid dim ond o ran asesiadau ond hyd yn oed yn y ddarlith. Mae darlithoedd yn rhyngweithiol ac mae'n rhaid i fyfyrwyr gymryd rhan ynddynt - nid yw'n rhywbeth goddefol. Felly, gellir bod yn greadigol drwy drefnu gweithdai yn seiliedig ar astudiaethau achos, neu dasgau dysgu rithwir sy'n gofyn i fyfyrwyr feddwl am bethau mewn ffyrdd gwahanol. Roedd un o'm sesiynau diweddar yn trafod America a phŵer meddal a oedd yn seiliedig ar chwe erthygl a ymddangosodd mewn rhifyn arbennig o 'The Economist'. Rhannais y grŵp yn chwe grŵp. Rhoddwyd erthygl i bob grŵp a gofynnwyd i bob un ohonynt lunio map meddwl ar y bwrdd gwyn yn y blaen. Felly roedd gennym chwe map meddwl, a'r dasg wedyn oedd nodi themâu a materion cyffredin a welwyd ym mhob un o'r erthyglau. Roedd hynny'n beth eithaf creadigol yn fy marn i, oherwydd fe gododd faterion ynghylch pŵer, a rôl a safle newidiol America.

Soniwyd am eich asesiadau creadigol hefyd. Un o'r enghreifftiau a roddwyd oedd blog cyfunol.

Un o'r pethau rwyf wedi'i wneud eleni yw cymell y myfyrwyr i ddarllen llyfr, a rhoddais gwestiynau'n ymwneud â'r llyfr yn yr arholiad. Nawr, er mwyn sicrhau eu bod yn darllen y llyfr mewn ffordd bwyllog, rwyf wedi creu blogiau a'r hyn y mae'r blogiau yn ei wneud yw cynnig strwythur. Felly, rwy'n eu trefnu'n grwpiau blog ac yna, fel grŵp blog, maent yn gweithio eu ffordd drwy'r llyfr ac rwy'n rhoi cwestiynau iddynt eu trafod yn y llyfr. Felly mae gan y blog strwythur a threfn. Y rheswm dros wneud hynny yw annog myfyrwyr i ddarllen yn gyson yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na gadael popeth tan y funud olaf, ac mae'r blog yn eu galluogi i wella eu dealltwriaeth o faterion drwy eu trafod gydag eraill. Mae'n ffordd eithaf heriol iddynt ddysgu oherwydd, i ddechrau, maent yn ofnus iawn o'r bobl nad ydynt

yn cyfrannu, ac mae'n cymryd amser iddynt ymgysgu â defnyddio blog. Nid yw llawer ohonynt, er ein bod yn meddwl amdanynt fel myfyrwyr technolegol gymwys, mor dechnolegol gymwys ag y byddem yn ei ddisgwyl ac mae'n cymryd tipyn o amser iddynt fynd i'r arfer o ddefnyddio blog. Mae'r blog yn dipyn o her iddynt ond mae'n gweithio'n dda iawn.

Un peth arall y soniwyd amdano oedd y gofyniad i lunio llyfr lloffion fel rhan o'r asesiad, sy'n ymddangos braidd yn rhyfedd pan rydych yn 18+.

Rwy'n credu mai dyma'r asesiad mwyaf heriol rwyf wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf ym marn y myfyrwyr. Mae'n heriol am ei fod yn gofyn iddynt fod yn gwbl greadigol wrth gynllunio a chynhyrchu darn o waith. Nid yw'n ymwneud â'r ysgrifennu yn unig, na'r cynnwys, mae'n ymwneud â'r ffordd y caiff y llyfr lloffion ei gyflwyno fel darn o waith deallusol sy'n cyfleu neges. Felly, rwyf wedi gofyn i'r myfyrwyr nodi mater cyfoes sy'n ymwneud â globaleiddio ac yna mae'n rhaid iddynt gynhyrchu llyfr lloffion yn seiliedig ar y pwnc hwnnw. Felly, er enghraifft, mae nifer o fyfyrwyr wedi dewis yr achosion o Ebola. Yr hyn y mae angen iddynt ei wneud gyda'r llyfr lloffion yw creu stori o'r achosion o Ebola a'r cysylltiad rhyngddynt â globaleiddio a sut mae globaleiddio wedi newid ein hymagweddau tuag at Affrica a symudiadau pobl. Felly, maent yn trin y llyfr lloffion fel ymarfer casglu data. Yna, mae'n rhaid iddynt feddwl am y gwaith cynllunio a dylunio a sut i ddefnyddio geiriau a lluniau i gyfleu pethau mewn ffyrdd unigryw a gwreiddiol. Mae'n her fawr iddynt ond mae llawer o'r myfyrwyr yn mwynhau'r broses o gynhyrchu'r llyfr lloffion yn fawr am ei fod yn eu grymuso. Rwy'n credu bod y syniad yn un cadarnhaol a real, ac mae'n werth yr ymdrech ar fy rhan i. Mae gan y llyfr lloffion strwythur sgaffaldiau gwirioneddol ac mae'n cynnwys llawer o adborth ffurfiannol. Mae'r myfyrwyr yn llunio adroddiadau ar gynnydd ac rwy'n eu herio yr holl ffordd ynghylch cynnwys, dylunio a sut y byddant yn mynd ati i ddadansoddi'r cynnwys yn eu traethawd gwerthuso terfynol. Felly mae strwythur a rhesymeg wirioneddol i'r hyn y maent yn ei wneud. Nid yw'n ymwneud â chreu llyfr lloffion a gadael iddynt fynd yn unig. Rydych yn cefnogi'r broses o'r dechrau i'r diwedd.



Pwynt cadarnhaol arall a godwyd gan y myfyrwyr oedd effaith yr asesiad ffurfiannol. Allwch chi sôn am hynny?

Rwyf wedi defnyddio asesiadau ffurfiannol gryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae pob un o'r modiwlau rwy'n eu haddysgu yn cynnwys elfennau ffurfiannol i raddau mwy neu lai. Mae'r llyfrau lloffion yn cynnwys pedwar darn o waith ffurfiannol cyn y gwerthusiad terfynol ac, o gofio bod rhwng 200 a 300 o fyfyrwyr yn astudio'r modiwlau hyn, mae hynny'n gyfystyr â thros 2500 o ddarnau o waith sydd wedi'u cyflwyno i mi a'm tîm addysgu hyd yn hyn eleni. Nid ydym wedi cyrraedd y gwerthusiad cyfunol terfynol na'r llyfr lloffion eto. Felly mae'n golygu cryn dipyn o ymdrech ar ran y tîm addysgu i ddatblygu'r asesiad ffurfiannol. Ond, am fod yr asesiad yn un ffurfiannol, mae'n annog y myfyrwyr i ddysgu o'r hyn sydd gennych i'w ddweud mewn amgylchedd heb risg, lle y cânt eu hannog i gymryd risgiau. Mae'n eu hannog i feddwl mewn ffordd wahanol ac, os nad yw hynny'n gweithio neu os byddant yn gwneud camgymeriad, nid yw hynny'n bwysig. Felly, mae'n ymwneud bob amser â'r camau nesaf. Mae'n anelu bob amser at eu datblygu fel unigolion.



Nododd un o'r enwebiadau, 'mae bob amser yn arbrofi gyda dulliau newydd o roi adborth fel podlediadau'. Allwch chi ddweud wrthyf pam y gwnaethoch benderfynu defnyddio adborth clywedol yn hytrach nag adborth ysgrifenedig?

Mae'r adborth clywedol rwy'n ei roi wedi'i ysgogi'n bennaf gan ddyhead i wella ansawdd yr adborth. Roeddwn yn teimlo bod adborth ysgrifenedig yn eithaf cyfyngol, nid yn unig o ran yr hyn roeddwn yn ei ddweud ond hefyd o ran ansawdd rhai o'r pethau roeddwn yn ei ddweud. Roedd yn broses lafurus ac nid oedd yn cyfleu rhai o'r pethau roeddwn am eu dweud. Rwy'n defnyddio adborth clywedol nawr i'r fath raddau fel bod yr holl adborth rwy'n ei roi ar fy astudiaethau ôl-raddedig yn glywedol, yn ffurfiannol ac yn gyfunol. Yr hyn sydd wedi fy

ysbrydoli fwyaf yw bod yr adborth rwy'n ei roi i'r myfyrwyr wedi newid. Mae wedi symud i ffordd o fod yn adborth ynghylch yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir ynghylch darn o waith i drafod deilliannau dysgu a'r agweddau mwy damcaniaethol ar waith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae ffocws yr adborth a'r ffordd y mae'n teimlo mor wahanol. Yn ei hanfod, rydych yn defnyddio'r clywedol fel sgwrs un-i-un ac mae'r myfyrwyr yn dweud eu bod yn teimlo fel pe bawn i'n eu hadnabod ac yn pryderu amdanynt. Rwy'n credu bod hynny'n cael ei wobrwyo o ran ansawdd y gwaith rwy'n ei gael yn ôl.

Ac yn olaf, rwy'n gwybod mai chi oedd un o'r rhai cyntaf i fabwysiadu Moodle a'ch bod yn agored iawn i'r posibilïadau y gall Moodle eu cynnig.

Yn fy marn i, nid oes cymhariaeth rhwng Moodle a Blackboard fel amgylchedd dysgu. Mae'n llawer mwy diddorol i'r myfyrwyr oherwydd caiff ei lywio'n bennaf gan luniau, nid rhestrau. O safbwynt y staff, mae'n gadarnhaol iawn oherwydd gallwch fynd ati i addysgu mewn ffordd gwbl wahanol heb unrhyw gyfyngiadau. Mae'r fformat a'r dull gweithredu y mae Moodle yn fy ngalluogi i'w mabwysiadu yn rhoi llawer mwy o ryddid i mi. Mae'r defnydd o adnoddau o fewn Moodle hefyd yn rhywbeth y mae angen i'r staff ei ystyried. Sut y gallant ddefnyddio'r rhain yn fwy effeithiol. Mae'n gyfle gwych i'r staff feddwl o ddifrif am yr hyn y maent yn ei wneud a sut maent yn gwneud pethau. Er bod Moodle yn adnodd cymharol newydd i mi, rwyf wedi'i ddefnyddio ar gyfer llawer o asesiadau creadigol eisoes, er enghraifft, rwyf wedi defnyddio'r adnodd geirfa i wneud tasgau grŵp ac unigol ar y cyd ac rwyf wedi creu canllaw cyfeirio ar greadigrwydd. Gofynnais i'r myfyrwyr ysgrifennu llyfr yn llythrennol fel prosiect grŵp o ran y cynnwys. Fodd bynnag, roedd y gwerthuso, y cyflwyniad a'r gwerthusiad beirniadol ar y diwedd yn brosiect unigol yn eu hanfod. Gyda rhywfaint o ryddid meddwl, gallwch gymryd llawer o'r adnoddau a'u defnyddio at sawl diben.



Y Ciwb Globaleiddio

Yr hyn y mae'n ei gyflawni:

Mae'r Ciwb Globaleiddio yn ffordd ddarluniadol o gyflwyno'r cysyniad o globaleiddio. Mae'n annog dysgwyr i nodi delweddau sy'n diffinio'r agweddau da a'r agweddau drwg ar globaleiddio yn eu barn hwy. Mae'r dasg hon yn gwella dealltwriaeth y myfyriwr o globaleiddio, ac yn helpu i nodi natur amlddimensiynol y cysyniad a'r ddealltwriaeth ohono. Mae'n annog trafodaeth a'r broses o rannu syniadau am ddim.

Sut i fynd ati:

Er mwyn paratoi ar gyfer y dasg, dylid gofyn i'r myfyrwyr gasglu amrywiaeth o ddelweddau sy'n adlewyrchu globaleiddio yn eu barn hwy. Dylid sôn wrthynt fod angen iddynt gasglu dwy ddelwedd sy'n adlewyrchu pethau cadarnhaol, dwy ddelwedd sy'n adlewyrchu pethau negyddol (er y gallai'r rhain gael eu cywiro neu gellid dod o hyd i ateb iddynt, gyda pharodrwydd ac ymyrraeth briodol), a dwy ddelwedd sy'n adlewyrchu'r agwedd "hyll" neu ddrwg iawn ar y broses globaleiddio. Yn y sesiwn, dylid rhoi'r ciwb i'r myfyrwyr. Yna, dylent osod eu delweddau arno ac yna dylent eu trafod. Dylai'r myfyrwyr gymryd eu tro i drafod y da, y drwg a'r hyll.

Yr adnoddau sydd eu hangen:

- Y Ciwb (gallwch brynu rhain o flaen llaw a'u hailgylchu).
- Siswrn a glud.

Awgrymiadau

Mewn grwpiau amlddiwylliannol, edrychwch i weld a oes patrymau yn codi o ran yr hyn sy'n dda, yn ddrwg ac yn hyll!

Hyblygrwydd ac addasrwydd (Dysgu Gydol Oes)

Themâu sy'n deillio o'r enwebiadau:

Yr hyn yr oedd gan y myfyrwyr i'w ddweud...

- Gallu sicrhau newid a bod yn ymatebol i'r sefyllfaoedd a'r amgylcheddau y maent yn gweithredu ynddynt.
- Dangos eu bod yn agored i ddysgu gydol oes drwy astudiaeth gyfeiriedig a hunangyfeiriedig a chymhwyso dysgu at sefyllfaoedd newydd ac annisgwyl.
- Nodi, gwerthuso a gweithredu strategaethau dysgu personol.

■ Mae'r ddau ohonynt yn dod â phrofiad bywyd go iawn, brwdfrydedd ac angerdd am eu meysydd pwnc i'r dosbarth. Mae'r ddau ohonynt yn ein hannog i feithrin gwybodaeth sy'n ychwanegol at gynnwys y cwrs ac yn rhannu gwybodaeth a phrofiad o feysydd eraill o ddiddordeb sy'n gysylltiedig â'r pwnc. Mae eu hadborth a'u beirniadaethau asesu yn graff, yn ysbrydoledig ac yn ein hannog i hunanddadansoddi mewn ffordd feirniadol. Trafodwyd cyfleoedd yn y gweithle ac o ran astudiaethau pellach a rhoddwyd cymorth i archwilio'r llwybrau sydd ar gael. ■■

■ Cawn ein hannog i ymchwilio i bynciau ar ôl darlithoedd, a chaiff Blackboard ei ddefnyddio i ddarparu dolenni sy'n ein helpu i fwrw ati. Ni allent fynegi pa mor bwysig ydyw i ni barhau i feithrin ein gwybodaeth gan mai dyma y bydd angen i ni ei wneud drwy gydol ein bywydau fel technolegwyr pensaernïol proffesiynol. ■■

■ Mae (enw) yn ymdrechu i ysbrydoli holl fyfyrwyr Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd i fynd ar drywydd gyrfa foddhaus ym maes gwyddoniaeth. Yn ystod ei sesiynau addysg, mae'n annog myfyrwyr i ddod yn ddysgwyr annibynnol, ac mae'n frwd iawn dros waith ymchwil. Mae wedi addysgu sawl myfyriwr ymchwil sydd ar leoliad, p'un a ydynt yn fyfyrwyr mewnl Met Caerdydd sydd ar leoliad yn ystod yr haf neu'n fyfyrwyr is-raddedig allanol Ewropeaidd/rhyngwladol sydd ar leoliad, gan geisio nawdd gan y Gymdeithas Microbiolog Cyffredinol, neu'r Gymdeithas Microbiolog Cymhwysol. Gall y myfyrwyr Ewropeaidd/rhyngwladol hyn rannu eu profiadau a'u harbenigedd â myfyrwyr Met Caerdydd. ■■

■ Mae (enw) yn sicr yn dod ag egni i'w phynciau. Roeddent mor ddiddorol ac yn ysgogi'r meddwl i'r fath raddau fy mod wedi meithrin awch anniwall i ddysgu mwy am gymdeithaseg yn arbennig. ■■

■ Mae (enw) yn creu'r dogfennau asesu ar gyfer ei fodiwl gyda'r bwriad y cânt eu defnyddio gan y myfyrwyr yn ystod eu gyrfaedd neu'n ddiweddarach mewn bywyd yn y diwydiant digwyddiadau. ■■



Dyfarnwyd yr Ysgoloriaeth Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr am **Ragoriaeth Addysgu yn Ysgol Addysg Caerdydd** i...

Mae Gill yn mynd uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswyddau. Dyfeisiodd ddull dyfeisgar i helpu myfyrwyr fel fi i ddeall sut i ysgrifennu a strwythuro traethodau. Mae Gill yn eu galw'n flychau hud. Mae ei drws bob amser ar agor ac nid yw byth yn blino egluro unrhyw beth, ni waeth sawl gwaith y gofynnwch iddi. Mae Gill yn ddarlithwraig ysbrydoledig ac, uwchlaw popeth, yn weithiwr ieuencid. Mae'n amlwg ei bod yn ymroddedig ac yn frwdfrydig iawn dros ei gwaith.

■ ■ Mae Gill bob amser yn broffesiynol ac yn effeithlon pan fyddaf yn trafod unrhyw ddilema gyda hi, ac rwyf bob amser yn teimlo'n llawer gwell ar ôl rhannu fy mhrofiadau â hi, p'un a ydynt yn rhai cadarnhaol neu negyddol. Ar adegau pan rwyf wedi teimlo nad wyf yn barod am gyfleoedd newydd, mae hi wedi bod yn gefnogol ac yn anogol a dweud y lleiaf. Er enghraifft, mae Gill wedi fy helpu drwy'r broses o ddatblygu fy ngyrfa fel gweithiwr proffesiynol drwy fy annog i wneud cais am swyddi yn barod ar gyfer yr adeg pan fyddaf yn gadael y brifysgol. ■ ■

■ ■ Mae Gill wedi fy ysgogi i gael ffydd ynof fi fy hun a'm hymarfer fy hun wrth i mi baratoi ar gyfer y byd gwaith. Mae Gill yn aelod poblogaidd o'r adran ac yn ffefryn cadarn ymhlith y myfyrwyr. Rydym yn ei gwerthfawrogi'n fawr ac yn teimlo ei bod yn haeddu cael rhywbeth yn ôl gan y myfyrwyr. Mae Gill yn parhau i fod yn ffigwr cefnogol ac ysbrydoledig, er iddi ymgymryd â'r cyfrifoldeb anferthol o fod yn gyfarwyddwr rhaglen eleni. Dim ond rhai enghreifftiau o'm profiad i o fod yn fyfyrwr a roddir yn yr enwebiad hwn. Mae llawer mwy o fyfyrwyr y mae wedi'u helpu mewn cymaint mwy o wahanol ffyrdd! Mae cymaint o bethau y gallaf eu dweud am Gill, ond yr unig beth sy'n bwysig yn yr achos hwn yw nad wyf yn gwybod am unrhyw un sy'n fwy teilwng o'r wob. ■ ■

■ ■ Mae Gill yn wraig arbennig sy'n defnyddio ei ffordd unigryw o addysgu cymdeithaseg a seicoleg gymdeithasol, sy'n cynnwys comedi a brwdfrydedd, i addysgu myfyrwyr ynghylch pwysigrwydd hyn a'r effaith y mae'n ei chael ar bobl ifanc yn y gymdeithas sydd ohoni. Heb Gill, byddwn i fwy na thebyg wedi gadael y brifysgol ond rwyf wedi magu mwy o hyder ac wedi cael fy annog gan y ddarlithwraig arbennig hon. Mae Gill wir yn fy ysbrydoli ac felly rwyf wrthi'n llunio cynlluniau busnes ac ati i weithio gyda phobl ifanc ar raddfa fwy am fod Gill yn credu ynof. ■ ■

■ ■ Mae gan Gill bolisi drws agored i bob myfyrwr ar ein cwrs (BA Gwaith Ieuencid a Chymunedol). Mae bob amser ar gael i gael sgwrs a chwpaned o de os ydym yng nghanol argyfwng. Er enghraifft, pan rwyf wedi teimlo efallai bod y cwrs wedi mynd yn ormod i mi, mae hi wedi fy nghymhell i drafod fy mhroblemau yn agored ac yn onest. Nid wyf byth wedi petruso cyn rhannu fy mhryderon gyda hi oherwydd ei phersonoliaeth gynnes a bywiog. Mae hi wedi fy ysbrydoli mewn cymaint o ffyrdd i fod yn ymarferydd llawer gwell. Mae hi wastad wrth law os wyf am fyfyrrio ar ryw beth penodol. ■ ■

...Gill
Price

Cyfweliad â

Gill Price

Un o'r pethau y soniodd y myfyrwr amdano oedd y modd rydych yn helpu myfyrwr sy'n dod o weithio mewn lleoliad ieuencid a chymunedol i ymgfarwyddo â bywyd academiaidd.

Un o'r pethau sy'n bwysig am y tîm ac yn sicr am fy ymarfer i yw ein bod yn ceisio dod â gwaith ieuencid a chymunedol i mewn i'r brifysgol. Drwy ddod ag elfennau o ymarfer gwaith ieuencid a chymunedol i mewn i'r brifysgol, rydym yn gobeithio y gall myfyrwr uniaethu'n well â ni a'r pwyntiau rydym yn eu gwneud. Mae gan rai myfyrwr ddisgwyliadau y bydd darlithwyr yn sefyll o'u blaenau mewn theatr ddarlithio, yn cyflwyno darlith am awr ac yna'n diflannu tan y ddarlith nesaf. Nid yw hyn yn wir am y cwrs gwaith ieuencid a chymunedol oherwydd maint bach y dosbarthiadau a'r ffaith bod y myfyrwr sy'n cael tiwtorialau yn dod i wybod y tîm gwaith ieuencid a chymunedol ac yn teimlo y gallant ddod atom hyd yn oed y tu allan i'r gwersi a amserlennir. Mae'r broses diwtorial a rôl y tiwtor proffesiynol yn hollbwysig i'r gwaith o feithrin cydberthnasau a'r broses ddysgu fyfyrwr sy'n digwydd ar y cwrs.

Yn ôl y myfyrwr, rydych yn cyflawni'r hyn rydych yn ei addo ('walk the talk'). Maent yn dal i'ch ystyried fel gweithiwr ieuencid a chymunedol hyd yn oed mewn lleoliad academiaidd. Sut rydych yn cyflawni hyn?

Roedd y sail gwerthoedd gwaith ieuencid yn elfen hanfodol a lywiodd fy ymarfer ym maes gwaith ieuencid a chymunedol. Gan fod y sail gwerthoedd hon hefyd yn ategu addysgu a dysgu ar y cwrs, mae'n bwysig bod myfyrwr yn teimlo ei bod yn llywio fy ymarfer fel darlithwraig a thiwtor mewn lleoliad academiaidd.

Caiff y cysyniad hwn ('walk the talk') ei gyflawni hefyd mewn darlithoedd a thiwtorialau drwy gymhwyso damcaniaethau ac amlygu'r sail gwerthoedd hon. Drwyddi draw, mae'r addysgu ar y cwrs yn fwy na 'chalk and talk' o flaen yr ystafell ddosbarth. Mewn gwersi, rwy'n annog trafodaeth ac yn hwyluso ymarferion gwaith mewn grwpiau bach gyda'r myfyrwr. Felly,

gyda modiwlau fel 'gweithio gyda phobl ifanc mewn cyd-destun cymdeithasol', ni waeth pa ddamcaniaeth bynnag a gyflwynir, ceisiaf sicrhau ei bod yn berthnasol i fyfyrwr sy'n hyfforddi i fod yn weithiwr ieuencid a chymunedol. Rwyf hefyd yn helpu ac yn annog myfyrwr i gymhwyso damcaniaethau at brofiadau personol ac ymarfer yn ogystal â meithrin cysylltiadau â materion cymdeithasol ehangach. Y sefyllfa ddelfrydol yw fy mod i, fel darlithwraig a thiwtor, yn defnyddio gwybodaeth, barn a phrofiadau'r myfyrwr. Weithiau, nid yw hynny'n bosibl, yn enwedig ar lefel pedwar, pan fo'r myfyrwr ychydig yn nerfus, pan nad ydynt yn gyfarwydd â chlywed eu llais eu hunain yn yr ystafell ddosbarth neu pan nad ydynt efallai wedi dechrau eu lleoliad. Felly, rwy'n defnyddio enghreifftiau o'm ymarfer ym maes gwaith ieuencid a chymunedol i egluro pwyntiau trafod ac rwy'n credu bod y myfyrwr yn cydnabod hynny. Wrth i amser fynd heibio, y gobaith yw y bydd y myfyrwr, yn gynyddol ac yn reddfodol, yn gwneud y cysylltiadau drostynt hwy eu hunain.

Yn fy marn i, y broses diwtorial yw'r glud sy'n dal y cwrs gyda'i gilydd ac sy'n rhoi cryfder ychwanegol iddo. Mae'r tiwtorialau yn canolbwyntio ar y myfyrwr a chânt eu hwyluso gan diwtor proffesiynol. Yn y rôl hon, rwy'n annog myfyrwr i siarad am y profiadau a gawsant ar leoliad ac unrhyw faterion sy'n effeithio arnynt. Fel tiwtor, rwy'n helpu unigolion, yn holi cwestiynau, yn cyflwyno syniadau ac yn awgrymu ffyrdd ymlaen. Dros amser, daw hyn yn gyfrifoldeb a rennir gyda'r myfyrwr yn y grŵp. Mae tiwtorialau yn dueddol o fod yn sesiynau bywiog lle mae'r myfyrwr yn trafod amrywiaeth o brofiadau a materion sy'n ymwneud ag ymarfer. Felly, gallent fod yn trafod gwaith penodol gyda phobl ifanc, pam ei bod yn teimlo fel pe bai pobl ifanc yn hongian oddi ar nenfwd y ganolfan ieuencid yn ystod sesiynau gyda'r hwyr oherwydd, fel grŵp, maent yn hollol wyllt, ac mae hyn wir yn ysgogi'r drafodaeth yn y tiwtorialau hynny. Rwy'n defnyddio fy mhrofiadau fy hun a phrofiadau pobl eraill o ymarfer ac rwy'n helpu'r myfyrwr i wneud cysylltiadau â damcaniaethau er mwyn dadansoddi'r hyn sy'n digwydd yn y sefyllfaoedd hyn a meithrin gwell dealltwriaeth ohono, a nodi ffyrdd y gall y myfyrwr ymateb.

Mae'r llawlyfr gwaith maes yn manylu ar ofynion proffesiynol allweddol; cydberthnasau, addysgwyr, gwerthoedd, arferion, rheoli a datblygiad proffesiynol. Ar gyfer pob gofyniad, ceir enghreifftiau sy'n helpu'r myfyriwr i nodi anghenion dysgu. Tuag at ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fo'r myfyriwr yn canolbwyntio ar y gwaith o lunio eu portffolio, rwy'n eu helpu i nodi enghreifftiau o ymarfer, dadansoddi pethau, gwneud cysylltiadau a nodi damcaniaethau a allai ategu eu myfyrdodau. Mae'r adborth a roddir gan fyfyrwyr yn amlygu pwysigrwydd tiwtorialau o ran dysgu a datblygu mewn rôl broffesiynol.

Un o'r pethau y dywedodd y myfyriwr oedd ei fod yn bosibl nad ydynt wedi ysgrifennu traethodau ers cryn amser a, hyd yn oed os ydynt wedi dod yn syth o'r ysgol, fod y disgygliadau ar lefel addysg uwch yn wahanol. Gwnaethant gyfeirio at eich 'Blychau hud'.

Nid wyf erioed wedi eu galw'n flychau hud. Y myfyriwr fathodd y term hwnnw. Pan oeddwn yn fyfyrwraig israddedig, flynyddoedd lawer yn ôl, nid oeddwn byth yn cael unrhyw anhawster yn ysgrifennu aseiniadau ac fe wnes i ymdopi'n dda yn academaidd. Fodd bynnag, un o'r pethau rhwystredig pan oeddwn yn dechrau ysgrifennu aseiniad oedd y byddwn yn gofyn i'm hun 'ble rwy'n mynd gyda hyn' ac, yn aml, nid oeddwn yn gallu nodi'n glir y camau yr oedd angen i mi eu cymryd er mwyn cyrraedd y diwedd. Yn hytrach, byddwn yn bwrw ati i ysgrifennu.

Dros amser, rwyf wedi dod yn fwyfwy ymwybodol bod rhai myfyriwr yn ei chael hi'n anodd ysgrifennu aseiniadau am na allant ddechymgu'r aseiniad gorffenedig ac nid ydynt wedi nodi llwybr clir drwyddo. Hefyd, yn ystod fy hyfforddiant proffesiynol, deuthum yn ymwybodol iawn fod angen i fyfyrwyr ar gyrsiâu hyfforddi proffesiynol wneud cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac ymarfer. Felly, pan ddechreuais ddarparu hyfforddiant proffesiynol, yr hyn yr oeddwn i'n gofyn i'm hun oedd 'beth yw'r ffordd orau i mi helpu myfyriwr i ysgrifennu'r math hwn o aseiniad?' Rwy'n gobeithio fy mod wedi datblygu adnodd sy'n gwneud y ddau beth hyn, y 'Blychau Hud' (gweler Adnodd Addysgu). Hyd yma, mae'r adborth gan fyfyrwyr wedi bod yn gadarnhaol felly byddaf yn parhau i ddefnyddio'r adnodd hwn gyhyd ag y bydd myfyriwr yn cael budd ohono.

Mae gwaith ieuencid a chymunedol yn newid am fod llai o arian ar gael gan y llywodraeth. Sut ydych yn helpu myfyriwr i ddatblygu'r sgiliau hyn ar gyfer y dyfodol ac a ydych o'r farn bod hyn yn bwysig?

Ydw, rwy'n credu bod hyn yn bwysig. Yn y gorffennol, roedd y gydberthynas a'r adnoddau a oedd ar gael yn y maes yn

golygu bod darparwyr lleoliadau yn gallu cynnig rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus i'w staff, gan gynnwys myfyriwr, a oedd yn cwmpasu materion amddiffyn, asesu risg, cyllido ac ati. O ystyried y newidiadau yn y maes, y lleihad yn nifer yr adnoddau sydd ar gael a'r straeon ar wasanaethau a staff rheng flaen, mae'n amlwg bellach na all darparwyr lleoliadau gwmpasu cynifer o'r pynciau hyn gyda myfyriwr. Hefyd, wrth i wasanaethau gael eu hailstrwythuro, mae llawer o swyddogaethau wedi'u canoli. Pan oeddwn yn gweithio yn y maes fel Swyddog Addysg Gymunedol, byddwn yn ysgrifennu ceisiadau am gyllid. Gallwn rannu fy ngwybodaeth a'm sgiliau gyda myfyriwr ar leoliad. Mae'r broses gynyddol o ganoli swyddogaethau yn golygu bod rhai o'r mathau hyn o gyfleoedd yn cael eu colli o ran lleoliadau. Fel tîm y cwrs, rydym yn edrych ymlaen ac yn gobeithio cwmpasu mwy o'r sgiliau seiliedig ar waith hyn mewn gwersi a addysgir a, lle y bo'n bosibl, sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu mewn aseiniadau. Er i lawer o'r hyn a ddysgir wrth hyfforddi ac mewn sefyllfaoedd gwaith ôl-gymhwysu gael ei ddysgu drwy brofiad, mae'n amlwg bod meddu ar amrywiaeth o sgiliau ymarferol a meddwl beirniadol yn sbarduno dysgu a datblygiad proffesiynol yn y dyfodol. Felly, mae'n bwysig bod ein myfyriwr sy'n mynd allan i'r maes wedi'u paratoi am hynny mewn nifer o ffyrdd ac yn teimlo'n hyderus yn eu rôl broffesiynol.

Rwyf wedi defnyddio fy mhrofiadau o ymarfer er mwyn helpu myfyriwr i feithrin gwybodaeth ac ennill sgiliau seiliedig ar waith penodol fel unigolion a grwpiau mewn gwersi a thiwtorialau. Un enghraifft dda yw proffilio cymunedol. Yn aml, gofynnir i gyflogeion newydd lunio proffil o'r gymuned neu ymgymryd ag ymchwil gymunedol. Ar y cwrs, mae'r myfyriwr yn dysgu'r sgiliau hyn ac yn llunio proffil cymunedol gwirioneddol. Yn y gorffennol, mae myfyriwr wedi sôn eu bod yn falch bod hyn wedi'i gynnwys ar y cwrs oherwydd, pan ofynnwyd iddynt lunio proffil cymunedol yn y gweithle, roeddent yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny.

Mae rhai o'n myfyriwr yn dal i gael eu cyflogi gan eu darparwyr lleoliad ac, yn ddiweddar, rydym wedi cael diddordeb cynyddol gan ddarparwyr yn cynnig lleoliadau ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Er bod rhai sectorau o'r maes, yn anffodus, yn dirywio, ymddengys fod galw am fyfyrwyr o hyd, sy'n adlewyrchu'n dda ar y cwrs gwaith ieuencid a chymunedol a'n myfyriwr.



Blychau Hud

(term a fathwyd gan y myfyrwyr)

Yr hyn y mae'n ei gyflawni:

Mae'r adnodd hwn yn ddefnyddiol iawn i fyfyrwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i Addysg Uwch neu sy'n ei chael hi'n anodd strwythuro aseiniadau, yn ogystal â'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd gwneud cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac ymarfer yn gyson.

Mae'r blychau hud yn galluogi myfyrwyr i ddychmygu strwythur yr aseiniad y maent yn gweithio arno. Mae pob blwch yn ymwneud ag adran benodol o'r aseiniad gan gynnwys y cyflwyniad, y prif gorff a'r casgliad.

Gellir defnyddio'r blychau hud ar gyfer unrhyw aseiniad ond, ar raglen broffesiynol, caiff y blychau eu defnyddio i sicrhau bod y myfyrwyr yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng damcaniaeth ac ymarfer, ac yn wir ymarfer a damcaniaeth os yw'n gyfrif myfyriol, a'u bod yn gwneud y cysylltiadau hynny. Ym mhrif gorff yr aseiniad, mae gan bob blwch elfen damcaniaeth ac elfen ymarfer a rhaid i'r myfyriwr fynd i'r afael â'r ddwy agwedd hyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn ategu proses fyfyrion a'r broses o gymhysgo damcaniaeth.

Sut i fynd ati:

Ymarfer yn seiliedig ar drafodaeth yw hwn.

Tynnir llun o'r blychau hud ar bapur ac mae'r tiwtor yn trafod yr aseiniad dan sylw gyda'r myfyriwr. Ceir blwch cyflwyniad, prif gorff a all gynnwys cynifer neu gyn lleied o flychau ag sydd eu hangen ar y myfyriwr, a blwch casgliad. Eglurir diben y cyflwyniad a'r casgliad i'r myfyriwr ac yna mae'r tiwtor a'r myfyriwr yn canolbwyntio ar brif gorff yr aseiniad.

Yn y prif gorff, mae pob blwch yn ymwneud ag agwedd benodol ar ddamcaniaeth ac adran benodol o'r aseiniad. Eglurir wrth y myfyriwr mai dim ond un blwch y gall ei agor ar yr un pryd wrth ysgrifennu'r aseiniad. Dim ond pan fo'r blwch hwn ar agor y gellir trafod a dadansoddi'r ddamcaniaeth yn yr aseiniad. Mae hyn yn helpu'r myfyriwr i ddatblygu strwythur cydlynol drwy gydol yr aseiniad. Os bydd y myfyriwr yn symud i flwch newydd (damcaniaeth / adran) ac yn adalw rhywbeth o flwch blaenorol (damcaniaeth / adran), rhaid iddo aros tan bod y blwch sydd ar agor ar y pryd wedi'i gau. Dim ond wedyn y gall ddychwelyd i'r blwch blaenorol.

Drwy gyfrwng trafodaeth, mae'r tiwtor yn egluro bod gan bob blwch elfen ddamcaniaeth ac elfen ymarfer. Mae'r tiwtor yn helpu'r myfyriwr i wneud cysylltiadau rhwng y ddwy elfen hyn drwy ddefnyddio enghreifftiau personol, ymarferol neu gymdeithasol i ymgorffori'r egwyddor.

Yr adnoddau sydd eu hangen:

Pen a phapur yn ogystal â rhai blychau anweladwy!

Awgrymiadau

Wrth i fyfyriwr ddatblygu ei sgiliau academaidd ymhellach, gellir nodi awgrymiadau eraill drwy ddefnyddio'r blychau hud. Er enghraifft, cysylltu paragraffau a chymharu neu gyferbynnu safbwyntiau damcaniaethol.

Sgiliau rhyngpersonol a rhwydweithio

Themâu sy'n deillio o'r enwebiadau:

Yr hyn yr oedd gan y myfyrwyr i'w ddweud...

- Cydweithio a rhwydweithio yn effeithiol, gan fod yn flaengar ac arwain eraill lle y bo'n briodol.
- Cyd-drafod, arddel eu gwerthoedd eu hunain a pharchu gwerthoedd a chyfraniadau eraill.
- Gallu gweithredu mewn amrywiaeth o rolau mewn timau er mwyn cyflawni nodau cyffredin.

■ ■ Mae'n mynd gam ymhellach ac yn trefnu bod siaradwyr gwadd sy'n gweithio mewn swyddi lefel uchel yn y DU yn rhannu profiadau gwerthfawr â ni. Mae ei gyfrif Twitter yn adnodd ar-lein. Mae'n rhannu gwybodaeth ac yn cwestiynu'r ffordd y caiff perfformiad ei ddadansoddi yn gyson. Mae hyd yn oed wedi creu adnodd byd-eang ar gyfer y Dadansoddwyr Perfformiad gorau, gan roi rhwydd hynnt i ni, fel myfyrwyr, ddatblygu syniadau a meithrin cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol ■ ■

■ ■ Mae ei hasesiadau'n wych (ac rwy'n dweud hynny fel myfyriwr!), er enghraifft, mae'n ein galluogi i ddewis erthygl o gyfnodolyn (o fewn maes pwnc) ac rydym yn gwneud cyflwyniad arni. Fel myfyriwr, mae hyn nid yn unig wedi fy ngalluogi i ddysgu mwy am fy mrwdfrydedd fy hun dros y pwnc ond hefyd i ddysgu am frwdfrydedd fy nghyfoedion. ■ ■

■ ■ Efallai mai dim ond myfyriwr blwyddyn gyntaf ydwyf, ond mae eisoes wedi sôn y bydd yn fy helpu i a gweddill ein grŵp i gyflawni ein nodau ar ôl i ni ennill ein gradd drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwahanol i ni y tu allan i'r brifysgol. Mae bob amser yn frwdfrydig am bopeth ac mae'n sicrhau bod pawb yn edrych ymlaen at ei sesiynau bob wythnos! ■ ■

■ ■ Mae (Enw) yn defnyddio Twitter yn aml. Mae'n postio ac yn e-bostio erthyglau newydd, adroddiadau ar chwaraeon a thrafodaethau o'r byd chwaraeon. Gellir defnyddio'r rhan fwyaf o'r asesiadau a'r labordai a sefydlwyd gan (enw) ni waeth pa gamp a ddewiswn ac mae hyn yn ein helpu i ddysgu. ■ ■

■ ■ Mae ganddi gyfoeth o wybodaeth y mae'n ei defnyddio i'ch tywys i'r cyfeiriad cywir. Mae'n dangos artistiaid i mi er mwyn ysbrydoli fy ngwaith neu'n fy nghyfeirio at yr aelod cywir o staff y brifysgol a all helpu gyda syniad. ■ ■

■ ■ Trefnodd i bobl â phrofiad personol o rai materion sy'n dod i'r amlwg ddod i siarad â'r grŵp, gan wneud y modiwl yn berthnasol iawn. Gwnaeth fy helpu i sylweddoli bod cwrs Iechyd yr Amgylchedd yn cynnig cyfleoedd y tu hwnt i lywodraeth leol a rolau cynghori, ac mae wir wedi ehangu fy ngorwelion. ■ ■



Dyfarnwyd yr Ysgoloriaeth Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr am **Ragoriaeth Addysgu yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd** i...

Mae Henry yn rhoi cymaint o angerdd a meddwl i mewn i bob sesiwn. Mae pob sesiwn yn wahanol ac yn ddiddorol. Mae bob amser yn sicrhau bod y sesiynau yn broses ddwy ffordd lle y gallwn ofyn cwestiynau, ni waeth pa mor wirion y gallant fod. Mae pob sesiwn yn cynnwys rhywbeth gwahanol, boed yn driip neu'n ddarlith. Mae bob amser yn rhoi 100% i mewn i'w ddarlithoedd ac mae bob amser ar gael os bydd angen help neu gyngor arnoch.

■ ■ Mae Henry yn mynd allan o'i ffordd i ddod ag enghreifftiau o ddeunyddiau adeiladu i ddarlithoedd. Mae'n frwdfrydig ac yn llawn anogaeth. Mae ei ffordd o addysgu yn ysbrydoli diddordeb pellach yn y pwnc ac yn creu trafodaeth bellach yn y dosbarth a'r tu allan iddo. Mae ei allu i gyfathrebu yn ystod darlithoedd a'r tu allan iddynt yn gymeradwy ac yn galonogol. Gall y pwnc fod yn sych iawn ond mae ganddo ffordd o greu diddordeb yn y pwnc a hoelio sylw pawb! Bingo Terminoleg Adeiladu!!! Mae Henry yn ddarlithydd gwybodus, diddorol a brwdfrydig, ac mae'n hawdd mynd ato. ■ ■

■ ■ Mae'n mynd gam ymhellach yn rheolaidd: mae ei seminarau a'i ddarlithoedd wedi'u trefnu, eu hymchwilio a'u cyflwyno'n dda. Mae'n defnyddio cymysgedd o waith grŵp, fideos a chwisiau fel rhan o'r profiad dysgu, ac mae'n defnyddio cyfoeth o wybodaeth ymarferol a enillodd yn y diwydiant gyda samplau er mwyn gwneud ei bwnc ef yn berthnasol i ni. Mae'n trefnu teithiau maes yn rheolaidd. Mae ganddo bolisi drws agored ac mae bob amser yn barod i helpu myfyrwyr gyda phroblemau. Mae bob amser yn frwdfrydig ac yn groesawgar...nid yw byth yn cael diwrnod gwael ■ ■

■ ■ Mae'n rhoi adborth i bob un o'r 48 ohonom ar ein haseiniadau drwy sgrinlediadau o hyd at 20 munud yr un er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod beth wnaethant yn dda ac yn wael a sut i wella. Mae'n gofyn am adborth ar sesiynau yn rheolaidd ac mae bob amser yn ymgorffori'r adborth yn strwythur ei ddarlithoedd. Mae bob amser yn ystyried safbwyntiau amgen ac yn canmol blaengaredd. ■ ■

■ ■ Mae Henry yn ategu pob pwnc y mae'n ei drafod yn y dosbarth gydag enghreifftiau diddorol

go iawn o'i brofiad ei hun. Caiff adborth ar asesiadau ei roi ar ffurf adolygiadau ar-lein rhwng 10 ac 20 munud o hyd sy'n gweithio tudalen wrth dudalen drwy waith unigol pob myfyrwr, gan ddangos yn glir pob pwynt y gallwch ei wella. Mae'n amlwg yn frwdfrydig dros ei bwnc ac mae'r brwdfrydedd hwnnw yn ysbrydoli diddordeb myfyrwr yn y pwnc. Mae pob aseiniad wedi fy ngorfodi i feithrin deallwriaeth drylwyr o bob maes pwnc a gwmpaswyd. ■ ■

■ ■ Mae brwdfrydedd Henry dros ei bwnc, sef tai a'r amgylchedd adeiledig, yn ddi-ail. Darlithydd llawn cymhelliant sy'n drylwyr, yn frwdfrydig ac sy'n annog myfyrwyr, ac mae hyn yn creu dyhead ymhlith myfyrwyr i lwyddo yn y pwnc hwn. Mae'r adborth a roddir i bob myfyrwr ar aseiniadau drwy sgrinlediadau fideo yn ystyriol ohonom fel dysgwyr ac yn ddynamig iawn. ■ ■

■ ■ Mae Henry bob amser yn frwdfrydig dros bopeth y mae'n ei addysgu yn ei faes pwnc, sef yr Amgylchedd Adeiledig. Mae bob amser yn dod ag enghreifftiau o eitemau i mewn er mwyn ein helpu i ddeall yn well, er enghraifft, darnau o lechi, bwrdd plastr, pibellau a blociau concrid, y mae'n eu cario i mewn o gartref. Mae'n sicrhau bod pob darlith yn cyfrif, hyd yn oed os yw'n mynd bum munud y tu hwnt i'r slot o ddwy awr. Mae mor wybodus. ■ ■

...Henry Dawson

Cyfweliad â Henry Dawson

Mae myfyrwyr wedi sôn am yr amrywiaeth o dechnegau addysgu rydych yn eu defnyddio a'r ffordd rydych yn ennyn diddordeb mewn pynciau sy'n ymddangos yn sych.

Pan wnes i fy nghymhwyster yn yr amgylchedd adeiledig, roeddwn i'n teimlo ei fod yn bwnc sych iawn. Ers hynny, rwyf wedi mynd ymlaen i ymddiddori fwyfwy ynddo ac rwyf wedi troi'n dipyn o 'anorac' adeiladu. Pan ddechreuais addysgu, un o'r pethau y gwnes i benderfynu arno oedd mai'r peth pwysicaf oedd ymgysylltu. Os oes gennych bwnc sych ac os na allwch ymgysylltu, yna mae'n amhosibl cyfleu'r pwnc hwnnw. Rwy'n ceisio defnyddio amrywiaeth o adnoddau dysgu i ymdopi ag arddulliau dysgu gwahanol bobl a sicrhau ei fod mor rhyngweithiol â phosibl. Felly, gyda modiwl yr amgylchedd adeiledig, rwyf wedi cynnwys teithiau maes er mwyn dangos pethau mewn ffordd lai haniaethol. Yn yr ystafell ddosbarth, mae'n haniaethol iawn. Pan oeddwn i'n dysgu, roeddwn i'n teimlo, pan oeddwn i'n mynd allan ac yn adeiladu pethau, fy mod yn dysgu llawer mwy mewn cyfnod byr nag yr oeddwn yn ei wneud mewn misoedd o ddarllen pethau mewn llyfrau ac ati. Mae'n eithaf anodd mynd â myfyrwyr allan i safleoedd adeiladu, felly rwyf wedi canfod bod dod ag eitemau a ganfuwyd mewn sgipiau, a fenthyciwyd gan adeiladwyr a thowyr ac offer sydd gennyf gartref yn fy ngalluogi i ddangos ochr ymarferol pethau i'r myfyrwyr. Felly, gwnaethant ddechrau rhyngweithio â'r pwnc ychydig yn fwy, a dechrau ymddiddori ynddo. Ac yna rwy'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau mewn darlithoedd; rhai fideos, ychydig o ddeunydd clywedol ac ychydig o siarad ac yna rywfaint o waith rhyngweithiol, fel eu bod yn cael eu hannog bob amser i ymgysylltu â'r pwnc, yn hytrach nag eistedd yno'n oddefol gan obeithio y byddant yn amsugno'r wybodaeth.

Un o'r pethau y gwnaeth myfyrwyr sôn amdano oedd cwisiau. Dywedwch rywfaint wrthyf am y cwis.

Un o'r pethau a'm trawodd pan oeddwn yn gwneud fy PgCTHE oedd nad oeddwn yn gwybod faint o'r hyn roeddwn yn ei

ddweud a oedd yn cael ei amsugno gan y myfyrwyr a phenderfynais geisio mynd i'r afael â hyn. Dim ond hyn a hyn o adborth rydych yn ei gael o'r asesiad ar ddiwedd y tymor. Yr hyn roeddwn am ei wneud oedd canfod, ar ddiwedd pob darlith, pa feysydd yr oedd myfyrwyr wedi'u colli a defnyddio hyn fel profiad ffurfiannol ar gyfer y ddarlith nesaf. Roedd hi'n ddiddorol pan ddechreuais ddefnyddio'r cwisiau bach hyn, a oedd yn canolbwyntio ar y pethau roeddwn am iddynt gymryd o'r ddarlith. Canfyddais nad oeddwn wedi cael hwyl ar gyfleu rhai o'r pethau y teimlais i mi eu cyfleu'n dda ac roedd y myfyrwyr yn cofio rhai pethau nad oeddwn wedi meddwl llawer amdanynt. Felly, roedd modd i mi fynd yn ôl a myfyrwyr ar y gwaith yr oeddwn wedi'i wneud ar y ddarlith flaenorol ac edrych ar yr hyn a oedd wedi gweithio a'r hyn nad oedd wedi gweithio a newid fy nulliau addysgu yn unol â hynny. Rwy'n defnyddio 'Poll Daddy'. Gall y myfyrwyr ei ddefnyddio ar eu ffonau symudol neu ei gwblhau ar bapur a gallaf gael yr atebion yn syth. Mae pob ateb yn ddi-enw, felly gallaf eu dangos ar y bwrdd gwyn a siarad drwy rai o'r anawsterau y mae pobl wedi'u cael, heb i'r myfyrwyr deimlo embaras ynghylch eu camgymeriadau. Gallaf hefyd fod yn hyderus bod y myfyrwyr wedi cyrraedd y lefel ofynnol o wybodaeth sy'n fy ngalluogi i symud ymlaen ac adeiladu ar y lefel honno o wybodaeth.

Rydych yn defnyddio 'Adobe Connect' i ymgysylltu â myfyrwyr unwaith y byddant wedi gadael y campws. Pam rydych yn gwneud hynny?

Oherwydd ein hamserlen asesu, mae'r myfyrwyr yn dechrau un o'm haseiniadau ar ddechrau gwyliau'r Pasg. Dim ond hyn a hyn o help y gallaf ei roi cyn iddynt ddechrau'r aseiniad gan nad yw'n arwyddocaol bryd hynny. Roeddwn yn pryderu eu bod nhw i gyd wedi'u hynysu yn eu cartrefi eu hunain, ac mae'n aseiniad eithaf anodd. Mae'n un o'r rhai y maent yn poeni yn ei gylch! Felly penderfynais sefydlu fforwm ar-lein lle y gallent ymgysylltu a gwrandao ar gwestiynau ei gilydd, ac wedyn byddem yn gallu delio â'r cwestiynau hyn pan fyddent yn codi. Trefnais ddwy sesiwn 'Adobe Connect' yn ystod hanner cyntaf gwyliau'r Pasg. Roedd y myfyrwyr yn gallu mynd ar-lein a gofyn eu cwestiynau. Roedd hefyd yn

fodd i'r myfyrwyr a oedd yn aros i ofyn cwestiynau weld beth oedd y myfyrwyr eraill yn eu gofyn a sylwi ar bethau nad oeddent wedi meddwl amdanynt. Roedd y fforwm yn un effeithiol iawn yn fy marn i, ac nid yw'r myfyrwyr yn teimlo eu bod ar eu pennau eu hunain yn llwyr pan maent i ffwrdd ar wyliau.

Agwedd arall ar eich ymarfer y gwnaeth y myfyrwyr sôn amdani oedd ansawdd eich adborth, yn enwedig y sgrinledu sy'n eu cyfeirio'n ôl at ddarlithoedd a seminarau blaenorol.

Rwyf wedi bod yn defnyddio meddalwedd o'r enw Camtasia, sy'n eithaf hawdd i'w defnyddio gan mai dim ond tua phum botwm sy'n rhaid eu pwyso. Yn hytrach na cheisio rhoi sylwadau ysgrifenedig ar y gwaith, a arweiniais yn aml at gamfynegi, penderfynais gyflwyno sgrinledu. Mae'n rhoi adborth llawer mwy defnyddiol a chryno ac yn eich galluogi i ddefnyddio goslef y llais. Yr hyn y mae'r feddalwedd hon yn ei wneud yw gwneud tâp fideo o'r sgrin ac yna gallwch recordio eich llais yn siarad drosto. Mae'r recordiadau yn dueddol o fod rhwng pum munud ac ugain munud o hyd. Dyna'r amser a argymhellir, yn ôl y llenyddiaeth. Rwy'n darllen drwyddo ac yn gwneud un neu ddau farc ar yr ymyl



lle mae rhywbeth rwyf am gyfeirio ato ac yna'n mynd yn ôl a gwneud sgrinlediad gyda'r fersiwn electronig. Rwy'n gallu sgrolio i lawr i'r rhan rwyf am ganolbwyntio arni a siarad. Gallaf ddarparu dolenni i ddarlithoedd Powerpoint, erthyglau ar-lein neu gopiâu o ddeddfwriaeth, fel y mynnaf. Gellir ei defnyddio at sawl diben. Mae'n cymryd yr un faint o amser i wneud y gwaith marcio ar bapur ag ydyw i ddefnyddio'r feddalwedd sgrinledu unwaith rydych yn gyfarwydd â hi. Mae'r myfyrwyr wrth eu bodd yn ei defnyddio ac yn teimlo bod ganddynt gydberthynas agosach â'r darlithydd a'r pwnc ei hun o ganlyniad i'r feddalwedd sgrinledu.

Penderfynais beidio â rhoi eu marciau iddynt nes eu bod wedi defnyddio'r feddalwedd a chefais fy synnu i ganfod na fyddai 50% wedi ffwdanu gwranddo pe bawn wedi rhoi'r marciau iddynt yn gyntaf. Unwaith y gwnaethant wrando ar y sgrinlediad, gwnaeth pob un ohonynt wrando arno fwy nag unwaith - teirgwaith ar gyfartaledd. Gofynnais iddynt gymharu'r adborth hwn gydag adborth a gawsant ar aseiniadau eraill ac roeddent yn gallu nodi'r problemau yr oeddent wedi'u cael gyda'u gwaith, na fyddent wedi'i wneud fel arall. Felly, bu'r sgrinledu yn llwyddiant ysgubol ac mae wedi arwain at lawer o feta-wybyddiaeth a myfyrion ar yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Rydych yn ddarlithydd cymharol newydd, pa gyngor fydddech chi'n ei roi i newydd-ddyfodiaid eraill?

Y peth pwysicaf bob amser yn fy marn i yw ymgysylltu. Mae'n rhaid i chi gadw diddordeb y myfyrwyr a sicrhau eu bod wedi'u hysgogi. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich pwnc yn gyffrous. Pa ffordd bynnag y gwnewch hynny, byddwch mor greadigol ag y gallwch. Ewch ati i greu amgylchedd dysgu diogel ac anffurfiol! Mae'n swnio'n amlwg ond ceisiwch sefydlu amgylchedd gweithio yn y theatr ddarlithio lle mae'n ddiogel i unrhyw un gynnig syniadau neu atebion heb gael ei farnu. Os yw'r myfyrwyr yn ymgysylltu, yna mae popeth arall yn llifo o hynny.

Sut rydych yn datblygu'r myfyrwyr hynny yn ddysgwyr annibynnol?

Yn sicr, mae angen ennyn eu diddordeb yn y pwnc, eu cyffroi ac yna ceisio sicrhau eu bod yn cymryd perchenogaeth ohono. Yn fy marn i, mae gosod aseiniadau anoddach, gyda llawer o sgaffaldiau, yn galluogi myfyrwyr i fynd o bwynt lle nad ydynt o'r farn y gallant wneud y gwaith, i allu gweld sut i'w wneud, ac yna i deimlo brwdfrydedd drosto. Unwaith y maent wedi cymryd perchenogaeth, maent yn mynd amdani.



Bingo

Terminoleg

Yr hyn y mae'n ei gyflawni:

Mae gan lawer o bynciau swm sylweddol o eirfa sych y mae'n rhaid ei dysgu er mwyn i fyfyrwyr allu rhyngweithio'n gywir â'r pwnc. Mae'n anodd i fyfyrwyr ddysgu'r eirfa hon ac mae dysgu arwynebol yn golygu bod termau yn cael eu hanghofio'n gyflym yn aml, oni chânt eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'r diffyg terminoleg hwn yn rhwystro cynnydd yn y maes hwn. Mae canfod ffordd o ddod â'r termau hyn yn fyw ac ennyn diddordeb y myfyriwr yn y broses o'u dysgu yn golygu bod y pwnc newydd yn cael ei ddysgu'n gyflymach. Mae hefyd yn gwella hyder y myfyriwr.

Sut i fynd ati:

Lluniwch restr o dermau a ddefnyddir yn eich maes pwnc, gan gynnwys nifer o rai rhwydd. Ychwanegwch hwy at daenlen ynghyd â thempled 4x4 ar gyfer cardiau bingo (mae templedi ar gael am ddim ar-lein). Defnyddiwch gynhyrchydd rhifau ar hap i ddsbarthu'r termau neu ychwanegwch hwy â llaw at gardiau bingo.

Casglwch luniau sy'n cynnwys y termau a ddefnyddir ar y cardiau a'u gosod fel sleidiau Powerpoint bob deg eiliad (nid yw'r myfyriwr yn hapus gyda'r cyflymder ond mae'n helpu i unioni pethau rhwng y myfyriwr mwy abl a llai abl, gan arwain at enillwyr annisgwyl).

Rhedwch y cyflwyniad a dewch o hyd i gerddoriaeth ofnadwy i'w chwarae ar yr un pryd (mae gennyf 12 awr o gerddoriaeth 'elevator' amrywiol y mae'r myfyriwr yn ei chasáu, felly rwy'n dweud wrthynt am ddod o hyd i'r Bingo yn gyflymach). Rhowch wobwr fach (Wy Galaxy neu rywbeth tebyg) i'r tri myfyriwr cyntaf sy'n ffurfio llinell. Gwiriwch y llinellau drwy fynd yn ôl dros y sleidiau a welwyd. Mae'n well peidio â chwarae 'House' gan y bydd y rhan fwyaf o gardiau yn cynnwys un neu ddau derm na fydd y myfyriwr yn eu deall.

Wedyn, soniwr wrthynt am ofyn i chi egluro unrhyw dermau ar eu cerdyn nad ydynt yn eu deall.

Mae'r myfyriwr yn dueddol o gofio ambell i derm newydd am bob gêm a chwaraeir.

Yr adnoddau sydd eu hangen:

Powerpoint, Excel a chardiau bingo wedi'u torri allan.

Awgrymiadau

Mae defnyddio cerddoriaeth gefndir ofnadwy wir yn helpu. Felly hefyd y drafodaeth fer am dermau anghyfarwydd ar ôl y gêm.

Gellid defnyddio'r gêm hon yn hawdd gyda chwestiynau/brawddegau â geiriau coll ac ati, yn lle delweddau gweledol ar sleidiau Powerpoint, fel dewis amgen i gwisiau â chwestiynau aml-ddewis.

Enillwyr Blaenorol

2012

Addysgu eithriadol
(Ysgol Fasnach Llundain 2012):

Dr Rajendra Kumar

Mwyaf arloesol:

Hannah Plumpton

Mwyaf ysbrydoledig:

Dr Dimitra Fimi

Paratoad gorau ar gyfer gwaith:

Olwen Moseley

Modiwl mwyaf trefnus:

Rose O'Driscoll

Adborth gorau:

John Dobson

2013

Addysgu eithriadol
(Ysgol Fasnach Llundain 2013):

Dr David Acquay

Hybu hyder yn y dysgu:

Mark Samuels

Paratoad gorau ar gyfer y dyfodol:

Dr Stephen Moore

Asesu sy'n gwella'r dysgu:

Dr Annette Daly

Addysgu arloesol:

Ingrid Murphy

Addysgu mwyaf ysbrydoledig:

Chantelle Haughton

2014

Addysgu eithriadol
(Ysgol Fasnach Llundain 2014):

Ellie Semsar

Rhagoriaeth Addysgu yn Ysgol Chwaraeon Caerdydd:

Brendan Cropley

Rhagoriaeth Addysgu yn Ysgol Reoli Caerdydd:

Nigel Jones

Rhagoriaeth Addysgu yn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd:

Anna Bhushan

Rhagoriaeth Addysgu yn Ysgol Reoli Caerdydd:

Emily Abbinett

Rhagoriaeth Addysgu yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd:

Cathryn Withycombe